

Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 306

Chwefror
2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

Ymgeisydd lleol

Dyn ifanc, egniol a'i wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal yw dewis Plaid Cymru i ymladd ward Melindwr yn etholiadau'r cyngor sir ym mis Mai. Magwyd Rhodri Davies ym Mryngwenlli, Pisgah, ac wedi iddo adael yr ysgol aeth i weithio yn adran argraffu Prifysgol Aberystwyth, prynodd hen dŷ yn Llywernog a'i adnewyddu. Mae ef a'i briod bellach yn byw yno ers dros bedair mlynedd. Bu'n weithgar mewn sawl mudiad yn yr ardal, yn enwedig Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant a'r Cylch. Enillodd wobrau am ei actio, ac mae'n adnabyddus fel aelod o gwmni drama Licris Alsorts ac fel y cymeriad hoffus 'Dalis' ym Mhantomeim Nadolig Felin-fach.

Meddai Rhodri,


'Dwi'n gobeithio wrth sefyll ar gyfer y Cyngor Sir gallaf weithio dros fy nghymuned leol a rhoi rhywbeth yn ôl i ardal sydd wedi bod mor dda i mi. Byddaf yn ceisio helpu'r bobl leol a'u cynrychioli gorau gallaf, a gobeithiaf byddaf

hefyd yn gallu helpu busnesau lleol, a hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned i geisio sicrhau ei dyfodol.'

Esboniodd fod dyfodol yr ardal (mae'r ward yn cwmpasu cymunedau o Gapel Bangor i Bonterwyd ac o Bantycrug i Gwmystwyth) yn dibynnu ar ei phobl ifanc:

'Un o brif broblemau Ceredigion gyfan fel sir yw bod llawer o'r pobl ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am gyfleoedd gwaith. Mae angen rhoi rheswm i bobl ifanc ein hardal aros yn yr ardal drwy sicrhau bod tai, gwaith a gweithgareddau yma ar eu cyfer.'

Roedd Rhodri yn ddewis unfrydol ymhlith aelodau lleol Plaid Cymru; yn yn ôl cadeirydd y gangen, Owen Roberts, 'rydym yn ffodus iawn o gael ymgeisydd cryf lleol i'n cynrychioli ym Melindwr. Mae gan Rhodri wybodaeth ddofn o'r ardal, a byddai'n chwa o awyr iach yn y Cyngor Sir.'



Enillwyr o fri



Ymddangosodd Atodiad Nadolig ym mhapurau bro Ceredigion a Sir Benfro ym mis Tachwedd, a grëwyd gan Antur Teifi. Roedd cystadleuaeth i blant liwio llun yn yr atodiad, ac wedi cael ymateb arbennig o dda gan dros drigain o blant, dewiswyd llun Nathan Mayes o Ysgol Gynradd Penrhyn-coch fel yr un gorau gan Llinos Price o Antur Teifi. Yn y llun fe welwch Megan Jones, Gweithredydd Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro, yn cyflwyno tocyn llyfr gwerth £10 i Nathan; ynghyd â disgyblion eraill o'r ysgol fu'n cystadlu.

Rhai o aelodau Cangen Penrhyn-coch o Ferched Y Wawr a fu'n buddugol yng ngystadlaethau Dartiau, Tennis Bwrdd a Dominos Rhanbarth Ceredigion. Byddant yn mynd ymlaen i'r cystadlaethau Cenedlaethol. - Janice Morris, Alwen Fanning, Eirlys Davies, Sue Hughes a Mair Jenkins. Ddim yn y llun: Sandra Beechey a Mary Roberts.

Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 306 | Chwefror 2008

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



CYDNABYDDIR
CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG



SWYDDOGION

GOLYGYDD - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

STORI FLAEN - Alun Jones
Gwyddfor 828465

TEIPYDD - Iona Bailey

CYSODYDD -  832980

CADEIRYDD - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd,
Llandre 828262

IS-GADEIRYDD - Elin Hefin, Ynyswen,
Stryd Fawr, Y Borth 871334

YSGRIFENNYDD - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street 828337

TRYSORYDD - David England
Pantyglyn, Llandre 828693

LLUNIAU - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street 828173

TASG Y TINCER
Anwen Pierce

GOHEBYDDION LLEOL

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol 880 691

BOW STREET
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell 828 337

CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd 880 645

CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
623660

Alwen Griffiths, Lluet Fach 880335
Elwynna Davies, Tyncwm 880275

DÔL-Y-BONT
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd 871 615

DOLAU
Mrs Margaret Rees, Seintwar 828 309

GOGINAN
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno 880 228

LLANDRE
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre 828693

LLANGORWEN/CLARACH
Mrs Jane James, Gilwern 820695

PENRHYN-COCH
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth 820642

TREFEURIG
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau 828 296

DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD
MAWRTH 6 a MAWRTH 7 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAWRTH 20

CHWEFOR 26 Phawn Mawrth
Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo a
chreadigol) yr Urdd cylch Aberystwyth
yng Nghanolfan y Celfyddydau am
4.00.

CHWEFOR 27 Phawn Mercher
Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch
Aberystwyth yn Ysgol Gynradd
Comins-coch am 1.30

CHWEFOR 27 Nos Fercher Rhosyn
a rhith – ffilm yn Drwm, LLGC am 7.30
Tocynnau £3.50 Ffôn 632548

CHWEFOR 28 Dydd Iau Rhagbrofion
Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch
Aberystwyth yn Ysgolion y dref

CHWEFOR 28 Prynawn Iau
Eisteddfod uwchradd yr Urdd
cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun
Penweddig am 1.30

CHWEFOR 29 Dydd Gwener
Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch
Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais.

CHWEFOR 29 Nos Wener Steve
Eaves a rhai pobl mewn gig Gŵyl
Ddewi yn Drwm, LLGC Tocynnau £7
Ffôn 632548

MAWRTH 1 Bore Sadwrn Bore coffi
Cymreig dan nawdd Capel y Morfa,
Aberystwyth ym Morlan 10.30-
12.00 Eitemau cerddorol gan Bethan
Bryn, Megan Hughes a phlant yr
ysgol Sul

MAWRTH 5 Phawn Mercher
Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo
a chreadigol) yr Urdd rhanbarth
Ceredigion - cynradd ac uwchradd
yng Nghanolfan y Celfyddydau - am
13.00.

MAWRTH 5 Nos Fercher Eisteddfod
Aelwydydd yr Urdd rhanbarth
Ceredigion yng Nghanolfan y
Celfyddydau - am 6.15

MAWRTH 6 Dydd Iau Diwrnod y llyfr

MAWRTH 6 Nos Iau Cinio Gŵyl
Ddewi Pwyllgor apêl Aberystwyth
a Phenparcau ar gyfer Eisteddfod yr
Urdd Ceredigion 2010 yn y Marine;
adloniant gan Aber Jazz a chinio 3
chwrs am £20 y pen. Byrddau o 8
(£160) neu gellir prynu tocynnau
unigol; ar gael o siop Dots neu drwy
ffonio 01970 626802. Croeso i bawb

MAWRTH 8 Dydd Sadwrn Eisteddfod
cynradd ac offerynnol yr Urdd
rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn
Pontrhydfendigadi am 9.00 y bore.

MAWRTH 8 Nos Sadwrn Eddie
Ladd yn cyflwyno Cof y corff yng
Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

MAWRTH 13 Nos Iau Dr Owen
Roberts, Pen-bont Rhydybeddau,
'Lawr ar lan y môr: golwg ar
hanes Aberystwyth fel tref wyliau'
Cymdeithas Madog yng Nghapel
Madog am 7.30

MAWRTH 14 Prynawn Gwener
Eisteddfod Uwchradd yr Urdd
Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Gyfun
Pen-glais am 1.00

MAWRTH 14 Nos Wener Noson
yng nghwmni Beti Griffiths, Llanilar
Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r
Garn am 7.30 Sylwer ar y newid dyddiad

MAWRTH 14 Nos Wener
Noson goffi yn Festri Capel Pen-llwyn,
am 7.00

MAWRTH 15 Nos Sadwrn Cinio Gŵyl
Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng
Ngwesty'r Four Seasons.

MAWRTH 16 Nos Sul Cyngerdd Nos
Sul y blodau gyda Chôr ABC a Crwys
Evans ym Methel, Aberystwyth am
7.30 £5 i oedolion, £3 i bensiynwyr,
plant am ddim.Yr elw i daith Patagonia
MENCAP Cymru

MAWRTH 20 Nos Iau Eisteddfod
papurau bro Ceredigion yng Ngwesty
Llanina, Llanarth am 7.00

AR WERTH

Tŷ tair ystafell wely yn
Canton, Caerdydd.

Dim cadwyn.

Angen gwerthiant sydyn.
Ffoniwch: 07970 888896.

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw
farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y
Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

Deunydd i'w gynnwys

Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r
Golygydd, ac unrhyw lythrau neu ddatganiad i'r wasg i'r
Golygydd.

Telerau hysbysebu y rhifyn

Tudalen gyfan £70

Hanner tudalen £50

Chwarter tudalen £25

Hysbyseb fach £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn)

Cysylltwch â'r trysorydd.

Y Tincer drwy'r post

Pris 10 rhifyn - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch
â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3HE. 01970 828 889

Y Tincer ar dâp

Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd
â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y
cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs
Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street 828555.

Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw
un yn yr ardal fydd am ei fenthg i dynnu llun ar gyfer y papur
o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein
dalgyrch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes
Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am
gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y
camera.



Cyfeillion y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Rhagfyr 2007

£50 Gwobr Arbennig Y Nadolig Rhif (96) Mona Edwards, Hafod, Garth, Penrhyn-coch.

£15 Rhif (125) John Griffiths, Fron Wen, Penegoes, Machynlleth.

£10 Rhif (51) Gwerfyl P Jones, 41 Ger-y-llan, Penrhyn-coch.

£5 Rhif (87) Bryn Roberts, Cilgwyn, Bow Street.

a Ionawr 2008.

£15 Rhif (95) Eddie Jenkins, Eryl, Llandre.

£10 Rhif (128) Eimear Williams, Bron Afon, Dolau.

£5 Rhif (37) Owen Watkin, 19 Maes Henllan, Llandre.

Caniadaeth y Cysegr

Darllendir rhan gyntaf Cymanfa ganu Gogledd Ceredigion o Bethel, Tal-y-bont brynhawn Sul 24 Chwefror am 4.30 ar Radio Cymru. Alan Wynne Jones fu'n arwain.

Messiah

Os ydych, fel fi, yn hoff o'r gwaith corawl "Messiah", hoffwn eich gwahodd i'w ganu neu wrando arno ym Morlan, Aberystwyth, dydd Sadwrn Mawrth 15fed.

Nid perfformiad ffurfiol gyda cherddorfa mohono. Bydd Cymdeithas Gorawl Aberystwyth yn gnewylln o'r côr a gobeithiwn y daw torf ohonoch i ymuno â ni, i ymlacio, mwynhau a chael cyfle i ganu'r gwaith heb fod o dan straen o gwbl!

Pe baech yn hoffi dod i ganu ond heb gopi o'r gerddoriaeth, bydd ychydig gopïau i'w

Annwyl Olygydd

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar gyfeiriadur Dyddiaduron 2009 Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur wedi datblygu i fod yn ffnhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am sefydliadau, cymdeithasau a busnesau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am sefydliad newydd yn Nyddiadur 2009 neu os ydych am ddiweddarau neu gywiro gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi.

Mae gwerthiant blynyddol y dyddiaduron bellach wedi codi i 16,000 o gopïau, ac eleni, fel arfer, bydd cyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced. Os am dderbyn taflen delerau cysylltwch drwy ddanfôn e-bost i dafydd@yloffa.com neu lythyr ataf yn Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5AP.

Yn gywir
Dafydd Saer

benthycia ar y dydd.

Bydd 4 o unawdwyr lleol sef Catrin Aur, Elinor Powell, Alex Roberts a Kees Huysmans, a'r gyfeilyddes fydd Alvina Grant. Fi, Margaret Maddock fydd yn ceisio cadw trefn ar y canu corawl.

Cawn gyfle i ddod at ein gilydd i gael ymarfer ar y nos Fercher blaenorol yn Ysgol Penweddig, ar bnawn Sadwrn yn y Morlan a'r perfformiad yn dilyn y noswaith honno. (Nid oes rhaid dod i'r ymarferion).

Y gost fydd £5 - i ganu yn y côr neu i wrando yn y gynulleidfa.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â fi, Margaret Maddock, ar 01970 611193 neu rowland77@btinternet.com.

Diwrnod o ganu. Dewch yn llu.
HALELIWIA!

RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymdeithas Tiryrynach £250
Gwenan a R.W. Davies,
Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£10

GWEITHDY GWERIN CLERA

(Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru)

Dydd Sadwrn 29 Mawrth 2008 yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth (10.00am - 4.30pm), a sesiwn werin yn yr Orendy yn y nos.

Dewch i chwarae cerddoriaeth draddodiadol Cymru! Mae CLERA (Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru) yn cynnal gweithdy yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth ar **Ddydd Sadwrn, Mawrth 29, 2008.**

Bydd Robin Huw Bowen yn cynnal dosbarth arbennig ar gyfer y delyn deires, a bydd dosbarthiadau hefyd ar gyfer ffidil, telyn, fflwiwt, pib a phibgorn. Mae hwyl fawr i'w gael - ac mae croeso i blant ac oedolion o bob safon.

Dewch i ymuno a ni yn Yr Orendy yn ystod y nos am sesiwn anffurfiol o chwarae cerddoriaeth werin Gymraeg.

Am fanylion pellach cysylltwch â Nia Mai Daniel ar 01970 623936 neu niamai.com

Carl Evans a'i Fab

Bryncadno
Penrhynnewydd
Penrhyn-coch

Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to

820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch

GINIO DYDD SUL

FRYDAU BAR

PARTÏON

BWYDLEN BWYTY

ADLONIAINT



AR AGUR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU
IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

MORRIS & READ



**PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b**

Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llan - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn

**GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090**



GWAITH GARDDIO



Am bob math o
waith garddio
ffoniwch Robert ar
(01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO

GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSEYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *



Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

C.J.Belsey Cyf

Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrffwr Siartredig Adeiladau



- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.

Ffôn: 01970 820166

Gwasanaeth CYFIEITHU

Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454



linda.griffiths01@btinternet.com

Y BORTH

Ar y Teledu

Hyfryd oedd gweld y cymeriad hoffus, Mr Dirk Lloyd, Frondirion, yn ymddangos ar y rhaglen ddyddiol, "Wedi Tri", ar S4C prynhawn Mercher 16eg o Ionawr.

Cafodd ei holi yn ei gartref am ei fywyd llawn a chyffrous, o'i ddyddiau cyntaf ar y môr. Disgrifiodd mewn iaith goeth sut y bu iddo fynd i'r môr pan oedd yn rhy ifanc yn wir ar y cychwyn, ac yna ymaelodi gyda'r Llynges Fasnach gyda'i Dad a oedd yn Gapten Llong, gan hwylio o Lerpwl i ddechrau am Cadiz yn Sbaen.

Ni bu yn hir cyn iddynt gael eu dal yn Rhyfel Cartref Sbaen, a dod yn rhan o'r gyflafan, trwy fynd i estyn cymorth ar ochr y Gweriniaethwyr yn Malaga, Seville a Barcelona. Bu yno am ddwy flynedd, cyn dychwelyd adref a gadael y môr.

Yn fuan wedyn, torrodd yr Ail Ryfel Byd allan, a dyma Dirk unwaith yn rhagor mewn sefyllfa lle roedd yna ymladd. Y tro hwn ymunodd â'r Fyddin, gan wasanaethu am bum mlynedd, ond nid oedd yn rhaid iddo fynd dramor y tro yma.

Mae Dirk yn falch iawn o'r anrhydedd mae wedi derbyn bob blwyddyn gan y Llang Brydeinig, i osod torch bob Sul y Cofio er cof am holl forwyr yr ardal gollodd eu bywydau. Mae e'n hynod o falch hefyd o'r ffaith mai fe yw'r gŵr hynaf yn yr ardal i wneud hyn.

Manteisiwn ar y cyfle yma i ddmuno'n dda iddo ar ei ben blwydd yn 90 oed pan ddaw heibio ym Mis Mai. Da iawn Dirk, a phob bendith a iechyd i'r dyfodol.

Y Borth, Llandre, a Dôl-y-bont.

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ym Methlehem, Llandre, nos Fercher, 12 Mawrth am 7.30 o'r gloch i drefnu Is-bwyllgor Apêl yr ardal i godi arian a threfnu gweithgareddau erbyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010. Taer erfynnir am bresenoldeb trigolion yr ardal yn y cyfarfod pwysig yma.

Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Dechreuodd cyfarfod y

Gymdeithas Gymraeg yn Ffestri Capel y Gerlan, nos Fercher 9 Ionawr, mewn dull dramatig, pan dorrwyd ar draws y cymdeithasu arferol gan stwr wrth y drws a llafarganu croch. Rhuthrwyd i agor y drws, ac i mewn a Mathew Clubb, yng ngwisg gwerinwr y dyddiau gynt ac yn arwain y Fari Lwyd, sef penglog ceffyl ar ben polyn hir, a'r cyfan wedi'i guddio o dan gynfas wen wedi'i haddurno â rubanau a chlychau. Wedi'i guddio, hefyd, roedd Geraint Williams, "coesau" yr hen Fari.

Ffurf ar wasaela yw'r Fari Lwyd ac er bod traddodiadau tebyg ar gofnod mewn sawl gwlad ac ar draws Cymru gyfan, cysylltir traddodiad y Fari Lwyd yng Nghymru yn arbennig a'r "Hen Blwyf", sef pentref Llangynwyd ym Morgannwg. Byddai'r Fari yn mynd o ddrws i ddrws adeg y Nadolig, a'i chymdeithion yn canu penillion a fyddai'n cael eu hateb gan bobl y ty. Pan fyddai'r cof a'r awen yn dechrau pallu, byddai'r Fari yn cael ei gwahodd i mewn a byddai'r rhialtwch yn para hyd nes i'r Fari symud ymlaen i'r tŷ, neu'r fferm, nesaf. Daw Mathew o Ben-y-bont ar Ogwr, heb fod ymhell o Langynwyd, ac, ychydig o flynyddoedd yn ôl, fe benderfynodd adfywio'r hen arfer yn ardaloedd Tal-y-bont a'r Borth. Mae wedi gwneud ymchwil ar achau'r Fari Lwyd ond mor hen yw'r traddodiad fel na all neb ei olrhain i'w darddiad. Yn fwy na thebyg y mae cyswllt teuluol a mudchwaraewyr y Canol Oesoedd, ond beth wedyn? A oes cysylltiad crefyddol â'r Forwyn Fair a'r asyn a'i cludodd i Fethlehem, ond, ar y llaw arall, oes yna ryw beth paganaidd yn glynu wrtho, gyda rhyw frith gof am addoliad ceffyl y Celtiaid gynt?

A Mathew a Geraint yn ymlacio dros gwpaned o de, ymunodd pawb mewn trafodaeth am arferion eraill ynghlwm wrth dymor y Nadolig, megis Hela'r Dryw a chanu Calennig y Flwyddyn Newydd. Diolchwyd i Mathew a Geraint gan y Parchg Elwyn Pryse ar ddiwedd noson ddifys a diddorol.

Sefydliad y Merched

Ni ddaeth dathliadau'r Nadolig i ben yn SYM Y Borth tan



Matthew a Geraint

ddydd Mawrth, 8 Ionawr, pan fwynhawyd cinio hanner dydd yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Joyce Berryman ac, ar ôl cinio hamddenol, yr oedd amser i ymlacio a mwynhau sgwrs am y flwyddyn i ddod.

Dydd Llun, 14 Ionawr, aeth Freda Darby, Susan James a Pauline Rickaby i Goleg Denman, Coleg SYM yn Marcham, ger Rhydychen, am wythnos o gyrsgiau, gan gynnwys "Darlunio ar gyfer y rhai dychrynedig" a "Paentio acrilig". Ymunodd SYM Y Borth a SYM Taliesin yn Llanfach, Taliesin, nos Fawrth, 5 Chwefror. Y siaradwraig wadd oedd Anne Edwards, a roddodd gyflwyniad am Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r gwasanaeth, a ddechreuwyd yng

Nghymru yn 2001, yn hollol ddibynol ar haelioni ei wirfoddolwyr a'r cyhoedd. Nid oes rhaid pwysleisio pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn mewn ardaloedd gwledig a pha mor phwysig yw ei gefnogi mewn pob modd posibl. Diolchwyd i Anne gan Ann Jones, Cadeirydd SYM Taliesin, a diolchwyd i SYM Taliesin gan Margaret Griffiths, Cadeirydd SYM Y Borth, am y lluniaeth blasus a fwynhawyd gan bawb cyn troi am adref.

Clwb yr Henoed

Cynhaliwyd Cyfarfod Agored

Blynyddol Clwb yr Henoed yn Neuadd Gymunedol Y Borth, brynawn dydd Iau, 17 Ionawr. Ailetholwyd Pwyllgor y Llynedd ac etholwyd swyddogion eraill fel a glynyn:

Llywydd: Celia LeGood

Cadeirydd: Betty Horton

Is-Gadeiryddion: Lydia Davies a Sylvia Holland

Trysorydd: Freda Darby

Ysgrifennydd: Ann Newby

Trefnydd Gwibdeithiau: Joy Cook

Y gŵr gwadd yn y cyfarfod, ddydd Iau, 31 Ionawr oedd Mr Derek Corfield, Cysylltwr Rhanbarthol i Wasanaeth Hysbysrwydd Gyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe siaradodd am gyfansoddiad a gwaith y Cynulliad, gan ein gwahodd i ddod i Gaerdydd i weld y Cynulliad ar waith drosom ein hunain. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd, Betty Horton.

Salwch

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Sara Hughes, Premier Stores, Y Stryd Fawr, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

Y Llang Brydeinig

Cynhaliwyd cyfarfod deufisio Llang Brydeinig Y Borth yn Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 23 Ionawr. Croesawyd aelodau a ffrindiau gan Y Parchg Ddr. David Williams.

Llongyfarchwyd Y Cadeirydd, Mr Aran Morris, ar dderbyn M.B.E. yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

Prif siaradwr y noson oedd y Cyngh. Ray Quant M.B.E. Gyda chymorth sleidiau, fe edrychodd yn ôl dros bedwar deg mlynedd o wasanaeth yn yr RAF. Ymadawodd Y Borth, yn bedwar ar ddeg oed, i ymrestru fel bachgen o brentis, gan arbenigo mewn cyfathrebiaeth. Teithiodd y byd, yn ystod ei yrfa, gan wasanaethu yn Ewrop, Y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell, weithiau o dan amgylchiadau peryglus iawn, megis yn Aden, Twrci, Ynys Cyprus a Berlin yn ystod y Rhyfel Oer. Er hynny, yr oedd wrth ei fodd gyda'i waith ac ar y maes chwarae, gan ragori ar focsio, hoci, pêl-

droed a mabolgampau. Pan ymddeolodd, yr oedd wedi cyrraedd rheng Gwarantwyddog ac yn gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Llundain.

Dilynodd Ray gan Beilot-Swyddog Gweithredol Robert Atchison a roddodd gyflwyniad am Sgwadron Awyr Prifysgol Cymru Aberystwyth. Wedyn, fe ddisgrifiodd Cadet-Siarsant Mark Leigh weithgareddau diweddar Sgwadron 561 Cadetiaid Awyr Aberystwyth; mae Mark ei hunan wedi ennill sawl tystysgrif a gwobr yn y Cadetiaid, gan gael yr anrhydedd, y llynedd, o ddod yn Gadet Uchel Siryff Dyfed.

Diolchwyd iddynt oll ar ddiwedd noson ddi-ddorol a phleserus gan Mr Bill Lloyd, Cadeirydd Sirol Y Llang

Brydeinig. Daeth y noson i ben gyda the, coffi, brechdanau a theisenau, wedi'u darparu gan ferched Cangen Y Borth.

RNLI

Cynhaliwyd noson o gawl a chymdeithasu yn Y Fictoria, nos Sadwrn, 26 Ionawr er budd yr RNLI, pan godwyd tua £115 at yr achos. Dyna noson olaf Margaret Griffiths a Glynne Jones yn "Y Fic". Ar ôl i'r cwsmeriaid i gyd ymadael amser cau, fe glowyd y drysau ganddynt am y tro olaf. Erbyn hyn bydd y Fictoria o dan berchnogaeth newydd. Byddwn ni'n gweld eisiau Margaret a Glynne yn y Fic ond diolchwn iddynt am bob cymwynas yn y gorffennol gan ddymuno'n dda iddynt yn eu menter nesaf.

MANTOLEN 2007

Y TINCER	MANTOLEN	2006-2007	MEDI
DERBYNIADAU			
BWRDD YR IAITH CYNGHORAU CYMUNED			£1,332.00
	Y BORTH	£50.00	
	TIRYMYNACH	£300.00	
	TREFEURIG	£250.00	
	MELINDWR	£250.00	
	GENAU'R GLYN	£200.00	£1,050.00
CYFEILLION Y TINCER			£450.00
GWERTHIANT			£2,228.21
HYSBYSEBION			£770.00
TINCER TRWY'R POST			£277.50
RHODDION			£77.00
CYNNWYS TAFLENNI			£85.00
FFAIR Y TINCER			£605.15
CYNGOR CEREDIGION			£500.00
CWIS PAPURAU BRO			£250.00
			£7,624.86
MEWN LLAW MEDI 2006			£2,902.80
			£10,527.66
TALIADAU			
ARGRAFFU			£5,517.67
GOSODWR			£1,700.00
TEIPIO			£600.00
GWEINYDDOL (STAMPIAU AYB)			£149.75
TRYSORYDD			£50.00
GOLYGYDD			£100.00
			£8,117.42
MEWN LLAW MEDI 2007			£2,410.24
CYFRIF CADW			£124.36

GWYNFOR DAVIES ADEILADYDD



Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

CTE

C. TREFOR EVANS

TREFNWR ANGLADDAU



"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Defnydd Melanie

The Old Exchange Stores
Capel Bangor

(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk

Arbenigwyr mewn cwiltio a
chlytwaith

Dosbarthiadau nos a dydd

ANIFEILIAID TEW

eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol



Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

GWASANAETHAU
DIOGELWCH



AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT

GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH
CWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

DJ Evans

Cyfarwyddwr Angladdau
Pearthyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ



J Selwyn Evans
Perchennog



Ffôn: 01970 820249

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU

Gofynnwch am bampfled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

M & D PLUMBERS

Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar

01974 282624
07773978352

Blodau i bob achlysur

Blodau'r Bedol

Priodasau . Pen blwydd .
Genedigaeth . Angladdau .
Blodau i Eglwysi a
Chapeli neu unrhyw achlysur

Donald Morgan

Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233

Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD
BOW STREET****Eich cigydd lleol****Pen-y-garn****Ffôn 828 447****Llun: 9-4.30****Maw-Sad 8.00-5.30**

Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI**EDDIE**

**7 DIWRNOD
YR WYTHNOS**
Ffôn 828 642

E D Evans, Gwawrfryn,
Penrhynoch

**pennau craft
and coffee shop**
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050

Coffi Boreuol

Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio

Te Prynhawn**Crefftiau ac Anrhegion**

Ar agor saith niwrnod yr wythnos
Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

**slop grefft a
choffi pennau**

LLETY PARC

Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stec
Coffi bore - te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y
bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas

Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

LLANDRE**Llandre, Dôl-y-bont, a'r Borth.**

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ym Methlehem, Llandre, nos Fercher, 12 Mawrth am 7.30 o'r gloch i drefnu Is-bwyllgor Apêl yr ardal i godi arian a threfnu gweithgareddau erbyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010.

Taer erfynnir am bresenoldeb trigolion yr ardal yn y cyfarfod pwysig yma.

**Eglwys San Mihangel
Genau'r-glyn**

Dymuna'r Eglwys eich gwahodd i ginio'r Grawys ar ddydd Sadwrn y 8fed o Fawrth 2008 o 12-1.30 o'r gloch yn Ysgoldy Bethlehem, (pastai'r bugail a llysiau neu ddewis llysieuol). Derbynnir rhoddion i'w trosglwyddo i Tŷ Hafan (Hosbis Plant yng Nghaerdydd). Croeso cynnes i bawb, dewch os gwelwch yn dda.

Cynhaliwyd Oedfa o Garolau a Llithiau ar y 18fed o Ragfyr pan ddaeth llu o deuluoedd y pentref i fwynhau neges yr Wyl. Arweiniwyd y canu gan Fand Arian Aberystwyth. Addurnwyd yr Eglwys gan y gwragedd i greu nawys yr Wyl, ac fel yr arfer bellach derbyniwyd liliâu godidog i'w gosod ar yr allor oddi wrth Miss M E Hughes a'i brawd o Lundain er cof am eu rhieni.

Darllenwyd y llithiau gan : Angela Wise, Sue Jenkins, Avril Thomas, Liz Collins, Hazel Pitt, Glenys Evans a Helen Atkinson. Cyflwynwyd y rhaglen gan Tudor Jenkins, aelod o'r band a rhoddwyd y fendith gan Helen Atkinson.

Wedi'r Oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros gwpaned o de/coffi a thartenni Nadolig.

Treftadaeth Llandre

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd fe ddaeth David Williams, nawr o'r Borth atom i son am ddiwyddiadau yn Llandre a'r Borth adeg yr Ail Ryfel Byd. Dangoswyd tipyn o ddiddordeb yn y testun a llwyddodd y siaradwr ein diddanu gyda llu o straeon pwrpasol.

Ganwyd David Williams yn Nôl-y-bont, yn fab i blymer ac aeth i'r ysgol yn y Borth. Er hynny pentre' Llandre oedd y lle chwarae a chroeso mawr ym Mhen-y-wern, fferm John Owen a'i chwaer.

Yn ddeg oed ar ddechrau'r Ryfel

**Treftadaeth Llandre
- Rhaglen 2008**

Chwefror 28 - Atgofion am Wleidyddiaeth Cymru - Cynog Dafis

Mawrth 28 - Pasg

Ebrill 24 - Pobl Llanfihangel Genau'r Glyn yn yr 17eg Ganrif - Gerald Morgan

Mai 29 - Llenyddiaeth Cerrig Beddi - Vernon Jones

Mehefin 26 - Ymweld â Rheilffordd Fach Lon Glanfred - Alan Millichamp

Gorffennaf 31 - Ymweld

â Chanolfan yr Urdd, Llangrannog - Wynne Melville Jones

Awst - Gwyliau'r Haf

Medi 25 - Henebion Ceredigion - Susan Fielding

Hydref 30 - Beddau Rhyfel yng Ngheredigion a Thramor - Gil Jones

Tachwedd 27 - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (a phanel lleol)

Rhagfyr 18 - Cinio Nadolig Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30

Mynediad am ddim i aelodau. Codir tal o £2 y cyfarfod fel arall - croeso i bawb.

Llongyfarchiadau i Treftadaeth Llandre ar ennill gwobr "Annog digwyddiadau a gweithgareddau mentrus er budd yr ardal" a drefnwyd gan Menter Aberystwyth, partneriaeth adfywio Aberystwyth a'r ardal.

roedd 'na newidiadau mawr yn cymryd lle o'i amgylch megis - sefydlu'r Gwarchodlu Cartref, pobl ddieithr yn ymsefydlu o dan orchymyn lletya - faciws, aelodau'r lluoedd arfog ac ymfudwyr eraill yn ffoi o fomio dinasoedd Lloegr. Roedd y plant yn cael tipyn o hwyl wrth wylu'r Gwarchodlu Cartref yn ymarfer! Cadwyd y reiffiau yng ngarej y Gweinidog.

Yna sefydlwyd gwerysll tra chyfrinachol yn Ynys-las i arbrofi defnyddiau gyrrwl ac arfau milwrol. Gwnaed y safle yn ardal waharddedig yn cynnwys y twyni a'r aber.

Yn anffodus does nemor ddim gwybodaeth am y safle ar gael heddiw, oherwydd diddymu'r gwerysll ar ddiwedd y rhyfel. Roedd ein siaradwr yn cael mynediad i'r gwerysll gan fod ei dad yn blymer swyddogol ar y safle ac fel crwt busneslyd cafodd rwydd hant i chwilota tipyn heb neb ei rwystro.

Un o'r rhyfeddodau oedd dryll mawr 16 modfedd y llynges, a daniwyd tua phedair gwaith y dydd ac yn gwneud tipyn o gynnwrf a difrod i ffenestri'r cabanau. Cafwyd pytau o wybodaeth am arbrofion ar rocedau, ambell awyren yn glanio ar y safle a bomiau'r gelyn yn disgyn yn ardal Pwll-glas ac Allt-goch.

Yn ein cyfarfod nesaf fe fydd Cynog Dafis, cyn AS ac AC yn darlithio ar y testun - Atgofion am Wleidyddiaeth Cymru, yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

MADOG

Suliau Madog

Mawrth

- 2.00 o'r gloch
 2 Oedfa plant yr Ofalaeth - y Garn
 9 Bugail
 16 Bugail
 23 Sul y Pasg - Oedfaon yr oflaeth - y Garn
 30 William E. Owen

Cymdeithas Madog

Daeth Cymdeithas Madog ynghyd nos Iau, 13 Rhagfyr, pan ddaeth y ffotograffydd, Marian Delyth, atom i sôn am ei hymweliad â Swaziland yn yr Affrig. Ymweliad oedd hwn a drefnwyd yn rhannol i gofnodi gweithgareddau'r crochenydd, Meri Wells a gydweithiai am gyfnod gyda chrefftwyr y wlad fach hon sydd — fel Lesotho — tua'r un faint â Chymru. Gyda chymorth cyfres o luniau trawiadol, cafwyd cip ar gymdeithas wledig y mynydd-dir gyda'i dulliau syml o amaethu cnydau, llysiau a ffrwythau. Eglurodd Marian fod cyfran dda o'r boblogaeth yn

Gristnogion, a bod pawb yno, er gwaetha'r tlodi a'r problemau iechyd, yn hynod hael a chroesawgar. Mae'r gymdeithas yn ymwybodol iawn o'r angen i roi blaenoriaeth i addysg ac i hybu cysylltiadau â gwledydd eraill. Daeth Marian yn ffigur cyfarwydd yno, a'i lluniau digidol yn destun chwilfrydedd a boddhad i'r bobl leol. Mae'n amlwg fod y profiad o fyw yn y gymdeithas syml, wâr hon wedi gwneud argraff ddofn iawn ar Marian. Fe lwyddodd i gyfleu hynny inni mewn ffordd gwbl arbennig, gyda'i sgwrs hamddenol a'i lluniau celfydd yn asio â'i gilydd yn wych. Diolchodd Mr Alwyn Hughes Gellinebwen i Marian am roi inni noson gofiadwy iawn. Gweinwyd panaid, brechdanau a mins-peis ar ddiwedd y cyfarfod gan Miss Alwen Griffiths Lluest Fach a Mrs Margaret Hughes

Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn Nos Iau, 24 Ionawr, pan ddaeth y Parchedig Irfon Evans, Comins-coch, atom i sôn am ei ymweliadau diweddar â Toronto lle y mae

ei fab, Deian, yn weinidog ar y capel Cymraeg tra ffyniannus yno, sef Eglwys Dewi Sant. Yn 2007 roedd yr eglwys yn dathlu ei chanmlwyddiant, a chawsom dipyn o'i hanes ynghyd â darlun o'r gweithgareddau niferus sydd yn gysylltiedig â hi. Syndod oedd clywed fod rhai o'r aelodau yn teithio dros gan milltir i fynychu'r oedfaon yno, a bod cynifer â 150 yn dod i'r gwasanaethau Cymraeg (a thros 350 i'r rhai dwyieithog a Saesneg). Soniwyd yn gyffredinol am fywyd dinas enfawr Toronto, ac am waith Annette, gwraig Deian, yn wreiddiol o Aber-soch, sy'n ddarlithwraig mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Toronto. Diolchwyd i'r siaradwr gan y cadeirydd, Y Bnr Alwyn Hughes, Gellinebwen, ac yna cafwyd te a theisennau wedi'u paratoi gan Miss Alwen Griffiths, Lluest Fach, a Mrs Margaret Hughes. Pleser oedd croesawu'r Parchedig Judith Morris yn ogystal â chael cwmni ein bugail, Y Parchedig Wyn Rhys Morris.

Croeso i bawb i'r ddau gyfarfod nesaf ym Madog:
Nos Iau 21 Chwefror, 7.30 p.m.
 Dr Gwyn Penrhyn Jones, Tal-y-bont Troeon yr yrfa

Nos Iau 13 Mawrth, 7.30 p.m.
 Dr Owen Roberts, Adran Hanes, Prifysgol Aberystwyth Golwg ar hanes Aberystwyth fel tref wyliau

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Dilwyn Thomas, Bronheulog, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus.

Llongyfarchiadau i Catherine am fod yn llwyddiannus gydag arholiadau nyrso.

Diolch

Dymuna Dilwyn Thomas ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a galwadau ffôn, a hefyd i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am bob gofal a charedigrwydd a dderbyniodd ar ôl llaw driniaeth yn Ysbyty Treforus.

CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r Henoed am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn Mawrth 31ain 2008. Yr ysgrifennydd yw:

Siân Spink

1, Cefn Melindwr, Capel Bangor, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3LS
 Ffôn: 01970 880467

YSGOL THEATR MALDWYN

Yn eisiau erbyn Medi 2008

CYFARWYDDWR CERDD

Mae Ysgol Theatr Maldwyn yn awyddus i benodi person brwdfrydig ac egniol i ymgymryd â'r swydd hon.

Dyddiad cau: **Ebrill 30 2008**

I fynegi diddordeb ac am fwy o fanylion, cysyllter â: Penri Roberts
 01686 413480

Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro




Mawrth 20fed 2008 am 7.00 y.h. yng Ngwesty Llanina, Llanarth.

Ifan Gruffydd yn arwain noson o gystadlaethau hwyliog gyda naws gartrefol.

Dewch i roi cynnig ar ddynewared, dweud stori gelwydd, gorffen limrig neu dim ond i weld pa bapur bro gaiff y brif wobwr gan ein beirniad, Dewi Pws' Morris.

Mynediad am Ddim Am fwy o fanylion galwch Guto Jones ar 01239 622446



inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Groesawir archebion gan unigolion ac ysgolion.

**13 Stryd Y Bont, Aberystwyth
 01970 626200**

Posh Paws

**Salon cŵn
 Torri cŵn i fri safonol
 Goginan**

**Kath 01970 880988
 07974677458**

BOW STREET

Gwasanaethau Y Garn

10 a 5

www.capelygarn.org

Mawrth

2 Oedfa'r plant - Gofalaeth
9 I'w drefnu - Arwyn Pierce
16 Bugail
23 Bugail - oedfaon yr ofalaeth
30 William E. Owen

Noddfa

Mawrth

2 3.30 Uno yng Nghartref
Tregarddan
9 10.00 Oedfa undebol yr ofalaeth
yn Soar, Llanbadarn
16 2.00 Y Parchg Marc Morgan
21 10.00 Oedfa undebol Gwener
y Groglyth ym Methel, Tal-y-bont
Gweinidog
23 10 2 a 6 Sul y Pasg Oedfaon
Undebol yr ofalaeth Sul y Pasg Y
Parchg Ddr John Tudno Williams
30 2.00 Gweinidog Cymundeb

Noddfa

Llongyfarchiadau mawr i Miss Jane Gwyneira Evans, Yr Efail, Penrhyn-coch, ar dderbyn Medal Gee am ei gwaith gyda'r Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd. Nid yw iechyd yn caniatáu iddi ddod i'r Capel a'r Ysgol Sul yn aml y dyddiau hyn ond y mae ei diddordeb a'i chefnogaeth i bopeth mor gryf ag erioed ac mae'n debyg ei bod wedi cyflawni digon o wasanaeth i haeddu'r anrhydedd ers degawd a mwy. Fe'i hurddwyd â'r Fedal mewn Oedfa Arbennig yn y Tymbl ddydd Gwener 25 Ionawr ac yr oedd yn braf bod Miss Evans wedi medru bod yn bresennol a bod nifer o'i ffrindiau a'i chefnogwyr a'i chyd-aelodau yn Noddfa yno hefyd.



Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Martha Angell, 11 Cae'r Odyn (gynt o Dregaron) fu farw ar Ionawr 24 yn Ysbyty Bron-glais.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Emyr L. John, Bryncastell, sy'n bennaeth Ysgol Pennal, Gwynedd ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol Gynradd Llancynfelyn. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd fis Ebrill.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Helen a Dylan, 52 Bryncastell, ar enedigaeth Elen Non ar ddechrau'r flwyddyn, ac i Dr Peter Mendel a'i wraig, 111 Bryncastell, ar enedigaeth bachgen ganol Ionawr

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Mairwen Davies, 19 Maes Afallen, ar golli ei brawd, Esmond Jones, a fu'n ymgartrefu yng Nghartref Tregarddan.

Dyddiadadau Sêl Cist Car
Neuadd Rhydpennau

Sadyrnau 8 a 22 Mawrth

Heather Bastow

Ar ôl cystudd blin bu farw Heather Bastow yn ei chartref 38 Bryncastell, Bow Street ar y 7fed o Dachwedd 2007, a hithau ym mlodau ei dyddiau.

Ganed Heather ym Mhenrhyn-



Aelodau Ysgol Sul Noddfa gymerodd ran yn y gwasanaeth Nadolig: o'r chwith i'r dde: Cerys, Lowri, Eryn, Leah, Lilly, Nia ac Alis.

coch ym 1962, yn ferch i Dilys a'r diweddar Frank Binks, Maes Seilo, ac yr oedd yn chwaer annwyl i David a Michael. Bu'n briod â John am ddeuddeg mlynedd dedwydd iawn ac yr oedd yn fam gariadus i Kristian a Craig. Yr oedd yn aelod yng nghapel Horeb.

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch ac Ysgol Gyfun Penweddig a threuliodd ei hoes waith ar staff y Cyngor Llyfrau yng Nghastell Brychan yn Aberystwyth lle'r oedd yn rhan o gwmni'eth glôs y sefydliad hwnnw dros bum mlynedd ar hugain.

Yr oedd Heather yn un o'r cymeriadau mwyaf annwyl. Bu'n ffyddlon iawn yn gofalu am ei mam ac er iddi ddiodeff salwch ei hun fe wynebodd Heather y frwydr hon â dewrder mawr ac yn ddi-rwgnach. Bu'n lew iawn drwy'r cyfan.

Cynhaliwyd ei hangladd ar y 14 Tachwedd yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch ac fe ddaearwyd ei gweddillion ym mynwent yr eglwys. Yr oedd y gwasanaeth o dan ofal y Parchedigion John Livingstone a Judith Morris.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu colled enbyd a thrist.

Derbyniwyd rhoddion er cof am Heather ac fe gyflwynwyd y swm anrhydeddus o £1275 i Ffagl Gobaith.

Er Cof am Getta Miles

Chwefror 2007 'roedd darllenwyr Y Tincer yn dathlu pen blwydd Getta Miles, (Hyfrydle, Bow Street, gynt) yn 90 oed ac fe dderbyniodd lu o gyfarchion o bob cwr. Dyletswydd drist iawn

i Catrin nawr yw diolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a estynwyd i deulu Getta yn dilyn ei hymadawiad Ddydd Sadwrn 20 Hydref 2007. Diolch o galon hefyd i bawb a wnaeth cyfraniad tuag at "Gronfa Achub y Plant Cymru". Erbyn hyn, mae ymron i £300 wedi cael ei drosglwyddo i'r achos hwn - er cof am fam, nain, chwaer, modryb a chyfaill annwyl.

Er iddi symud o Bow Street i Aberteifi yn 2002, cadwodd mewn cysylltiad â'i holl ffrindiau a chymdogion yn ardal Y Tincer a darllenai Catrin y papur bro iddi bob mis o glawr i glawr.



Diolch

Hoffai Mair, Gareth, Lowri a Rhys Lewis, Brynawel, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar golli Mam a Mam-gu, sef Mrs Hilda Daniel, Aberystwyth.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mair, Gareth, Lowri a Rhys Lewis, Brynawel, ar golli ewythr i Mair, sef Mr John Wemyss, Seland Newydd, ddechrau'r flwyddyn.

Diolch

Dymuna Gwen, Elved, Eirian, Aled a Nia, 45 Tregerddan, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth tuag atynt ar ôl colli Michael. Diolch hefyd am y cyfraniadau o £435 tuag at Eglwys Llandre, i westy Llety Ceiro am ddarparu lluniaeth wedi'r angladd ac i Mr Selwyn Evans am drefnu'r angladd gydag urddas a chydymdeimlad.

Diolch

Gair bach i ddiolch o galon i bawb am y pentwr anferthol o gardiau a chyfarfarchion a dderbynias ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Yr oedd yn gryn sioc gweld cyhoeddiad am y pen blwydd yn rhifyn y mis diwethaf o'r Tincer. Hoffwn longyfarch eich Gohebydd ar gael y ffeithiau amdanaf yn hollol gywir, ac yn ôl y nifer o gardiau a dderbynias fe hoffwn feddwl ei fod yn profi bod hysbysebu yn Y Tincer yn gweithio'n hynod effeithiol. Diolch yn fawr iawn, Mair Lewis.

Diolch

Rydym ni - Rhydian (Maes Ceiro)



Ar fin cychwyn dringo: Sam, Bethan, Rhydian, Peter ac Euryl (Megan dynnodd y llun).



Ydi, mae'r Wyddfa'n grêt - er gwaetha'r tywydd!

a Megan am ddiolch i bawb am eu rhoddion, cardiau a'u dymuniadau gorau ar achlysur ein dyweddiad. Cawsom amser gwych tra buom adre ym Maes Ceiro - yn cwrdd â theulu â ffrindiau.

Rhai uchafbwyntiau oedd dringo'r Wyddfa gyda'n ffrindiau Peter a Sam James, Euryl a Bethan. Nhw oedd wedi trefnu'r penwythnos fel anrheg.

Roedd yn fraint i mi (Megan) gael sgwrsio â dosbarth Mr Rees yn Ysgol Rhydypennau a phob disgybl wedi paratoi cwestiynau gwych am Awstralia. Clod mawr i Bethan am iddi adnabod

llun y possum. (Mae Louisa yn dweud nad oes yr un disgybl hyd nawr wedi medru ei enwi).

Rydym yn edrych ymlaen at weld pawb eto'r flwyddyn nesaf - adeg y briodas! Nodyn bach i'r ffermwyr lleol - mae eich defaid yn dal yn dew!!

Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Fawrth 8fed o Ionawr derbyniodd rhai o'r aelodau wahoddiad Cangen Melindwr i ymuno â hwy yn eu noson gymdeithasol yng nghwmni'r actor Alun Elidir. Cafwyd noson ddifyr a llawer o

chwerthin. Diolchodd ein Llywydd i aelodau Melindwr am eu croeso a'r lluniaeth blasus oedd wedi ei baratoi i ni.

Nos Lun, 14eg Ionawr, daeth Kate O'Sullivan, y milfeddyg o Landre atom i sôn am ei gwaith yn yr ardal. Merch o Lurgan, Gogledd Iwerddon, yw Kate, a rhaid ei llongyfarch ar ddysgu Cymraeg. Roedd wedi dod a lluniau pelydr-x gyda hi, ac eglurodd rhai o'r triniaethau sydd yn cael eu gwneud yn y feddygfa. Mae wedi arbenigo mewn orthopedig ac yn trin llawer o anifeiliaid anwes, yn enwedig cŵn.

CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 31 Ionawr o dan lywyddiaeth y Cyng. John Evans. Croesawodd y Parchg Richard Lewis i'r cyfarfod a hysbysodd y Cyngor bod y Parchg Richard Lewis wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn glerc y Cyngor i olynu Mrs Mary Thomas. Bydd yn cychwyn ar y swydd ar y cyntaf o Chwefror. Diolchodd y Parchg Richard Lewis am y croeso a mynegodd ei bod yn fraint cael gwasanaethu'r ardal lle'r oedd ef a'i deulu wedi bod yn byw ers 1976. Ar ran y Cyngor diolchodd y Cyng. Gwynant Phillips i Mrs Mary Thomas am ei gwaith cydwytodol am dros 20 mlynedd ac am ei chefnogaeth i bob cadeirydd yn ystod y cyfnod. Dywedodd Mrs Thomas y bydd rhai o bethau perthnasol i'r Cyngor sydd ganddi yn mynd i'r Archifdy.

Yn ddiweddarach yn y noson croesawyd yr Heddwes Hefin Jones i'r cyfarfod a bu'n trafod mân faterion ynglŷn â phlisma yn yr ardal ac egluro am y bwriad i sefydlu tîm Pact Cymunedol i ddelio â chwynion troseddol yn ardal Bow Street, Clarach, Dolau, a Llandre.

Hon oedd y noson i benderfynu ar yr archebiant am y flwyddyn gyfredol. Wedi llawer o drafod a dadlau penderfynwyd gofyn am £12,000 eleni, hyn yn golygu £14.16 ar anheddau yn band D (£11.92 llynedd).

Mewn ymateb i gais Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am gyfraniadau dros dair blynedd (bydd yr Eisteddfod yng Ngheredigion ymhen tair blynedd), penderfynwyd wedi llawer o drafod i gyfrannu £800 y flwyddyn.

Penderfynwyd peidio â chyfrannu eleni at elusennau y tu allan i'r ardal, ond parhau i gyfrannu'n lleol. Dyma fel y dosbarthwyd yr arian mewn ymateb i'r ceisiadau. Ffrindiau Tregerddan £100, Neuadd Rhydypennau £1000, Mynwent Capel y Garn £150, Mynwent Hephziba (Noddfa) £75, Tincer £250, Maes Chwarae Rhydypennau £400, Henoed £150.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu un rhan, sef yr ochor ddeheuol o Maesafallen. Mae'r ochor ogleddol yn dal dan drafodaeth.

Adroddwyd nad oedd yr arwydd newydd sydd i'w osod ym mhen uchaf Y Lôn Groes wedi cyrraedd eto, ond y mae'r cwteri yn y stryd wedi eu glanhau. Yr un yw cyflwr y llwybr troed wrth y Bont Wen, ond mae perchennog y tir wedi addo ail osod y llwybr pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mewn ymateb i gais am lamp i oleuo rhan dywyll o Y Ddôl, ger Blaenddol, dywedodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â dau gwmni am brisiau ond heb gael ateb eto.

Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi i'r canlynol: Cabanau ac estyniad i Ysgol Rhydypennau, Arwyddion newydd wrth fynedfa Build Centre (wedi eu gosod).

Ceisiadau newydd. Maesawelon, Pen-y-garn, dymchwel garej a chodi un deulawr - dim gwrthwynebiad. Bryncarne, ystafell haul lle i'r anabl mewn bwthyn gwyliau - dim gwrthwynebiad. Cae Caergywydd, cynlluniau 4 tŷ - dim gwrthwynebiad. Nantcellan Fawr, 4 uned wyliau o'r ysgubor, bync house a thir gwersylla - dim gwrthwynebiad. Pentre Gwyliau Clarach, toiledau newydd - dim gwrthwynebiad.

Adroddwyd bod y ffens newydd o flaen Tregerddan wedi ei gosod ond teimlid y dylai bod rhwyd wifren ynghlwm wrthi i atal plant rhag rhuthro i'r ffordd. Mae'r ystâd wedi cael ei glanhau a hefyd y rhewyn dŵr sy'n rhedeg gydag ochr y stad.

Cwynwyd fod y ffordd rhwng Rhydypennau a ben lôn Dolau yn dal yn beryglus i'w cherdded a bod angen gwneud y llwybr addawedig ar fyrder. Hefyd bod tipyn o drafferthion o hyd o flaen Ysgol Rhydypennau. Bydd y clerc yn cysylltu unwaith eto â'r adrannau priodol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Chwefror.

PENRHYN-COCH

Gwasanaethau Horeb

Mawrth

2 Clwb Sul 10.30-2.30 Oedfa

gymun Gweinidog

9 10.30 Oedfa deuluol

Gweinidog

16 2.30 Oedfa bregeth Y Parchg

Wyn Rh. Morris

19 Nos Fercher Cofio Swper y

Pasg 7.30

23 10.30 Oedfa Sul y Pasg Gweinidog

30 10.30 Oedfa bregeth

Gweinidog

Genedigaeth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eleri a Steve, 53 Dolhelyg, sydd wedi cael merch fach, Catrin, ar y 7fed o Chwefror.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Brian a Mary Thomas, Caryl a Nia, Llys Myrddin, ar farwolaeth tad Brian – y Parchg T. Arwyn Thomas, Hwlfordd ganol mis Ionawr.

Priodas ruddem

Llongyfarchiadau i Eirian a Dei Rees Morgan, Maes Seilo, ar ddathlu eu priodas ruddem ar Chwefror 10.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Aled Jones, Glan Seilo, am ennill Gwobr Addysg Gorfforol Ysgol Gyfun Penweddig y llynedd. Rhoddir y wobwr am gyfraniad arbennig i'r pwnc. Dywedodd Clem Thomas, Pennaeth yr Adran, fod Aled yn ddigybll talentog ym maes gymnasteg ac oherwydd ei ymdrech, ymroddiad a'i frwdfrydedd roedd yn enillydd haeddianol.

Llongyfarchiadau i Elinor Thorogood, 38 Glanceulan, sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Pen-glais ar ennill medal aur yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Abertawe yn Ionawr yn y gystadlaeth nofio broga 100m ar gyfer blwyddyn 11 a drosodd.

Hefyd, roedd Ollie Thorogood (11 oed) yn drydydd mewn ras gyfnewid gymysg gyda thîm Ysgol Pen-glais blwyddyn 7 & 8.

Ar Chwefror 10fed ym Mhencampwriaeth Nofio Gorllewin Cymru 2008 yn Abertawe daeth Elinor yn gyntaf yn y ras 200m broga merched 15 a 16, cyntaf yn y ras 400m cymysg unigol merched 15 a 16, ail yn y ras 100m rhydd merched 15 a 16. Daeth Alex yn gyntaf yn y ras 400m cymysg unigol merched 17+ a 5ed yn y ras 100m rhydd merched 17+. Daeth Ollie yn 7fed yn y ras 200m pili-pala bechgyn 10 a 11. Da iawn y Thorogoods!

Bin

Ychwanegwyd bin esgidiau at y lleill y tu allan i Neuadd Penrhyn-coch.

Plât

Gadawodd rhywun ddaeth a bwyd i'r blygain blât ar ôl yn Neuadd yr Eglwys. Cysyllter â Ceris Gruffudd 828017 os gwyddoch pwy sydd piau'r plât.

Mynwent Horeb

Byddai Ceris Gruffudd, ysgrifennydd Horeb, yn ddiolchgar pe gallai unrhyw ddisgynyddion o'r teuluoedd canlynol gysylltu gydag ef - Catherine Ellen a John Owen; Catherine, Edith ac Ann Williams John ac Eleanor Jones.

Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 10fed o Ionawr cynhaliwyd ein cinio blynyddol a chroesawodd Mair Evans, ein llywydd, ni i gyd i'r cinio. Treuliwyd noson yn Nhafarn y Gors, New Cross. Cafwyd noson hapus a hwylus yng nghwmni ein gilydd a chafwyd bwyd heb ei ail. Ein gwraig wadd oedd Catrin M. S. Davies, Tal-y-bont a chafwyd ganddi dipyn o hanes ei gyrfa fel cyfarwyddwr ar y radio a'r teledu. Dangosodd i ni rhai sleidiau o'i gwaith wrth iddi fynd o amgylch i wneud rhaglenni ar bobl roedd yn ymwneud â hwy. Dangosodd sleidiau o hanes Tom Cairns, gŵr lleol a roddodd ei waith bob dydd i fyny yn y ddinas fawr i fynd i wneud gwaith da i helpu pobl llai ffodus na ni dramor. Soniodd am waith Marian Delyth yn cofnodi hanes 30 mlynedd yn ôl Mynydd Bach, ac fel roedd pethau yno heddiw. Yna cafwyd eto ar sleidiau hanes y rhaglen am Brian Davies a gafodd ddamwain erchyll wrth chwarae rygbi ac sydd mewn cadair olwyn ond yn ymdopi yn rhyfeddol yng nghwmni ei deulu yn Y Bala. Dyn dewr a phenderfynol iawn. Ein dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol wrth iddo frwydro ymlaen. Diolchwyd i Catrin yn swyddogol gan Wendy Reynolds, diolchwyd i berchennog y dafarn a'i staff am y bwyd blasus. Noson wych fythgofiadwy.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Connie Evans, Gwawrfryn, a fu yn yr ysbyty cyn ac ar ôl y Nadolig.

Cydymdeimlad

Ein cydymdeimlad dwys â Graham a David Ian Thomas ar golli modryb yn Yr Alban yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad dwys â theulu'r ddiweddar Nesta G Edwards, un o hen stalwards y Penrhyn. Menyw a fu yn weithgar iawn efo popeth yn y pentre ar hyd y blynyddoedd tan iddi orfod rhoi gorau i bethau.

Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones, ysgrifennydd yr Eisteddfod, y bydd Cadair fach Eisteddfod eleni a'r wobwr ariannol yn cael ei rhoi gan June Kenny Griffiths a'r teulu, Aberystwyth, er cof am Mrs Kenny.

Cofiwch gefnogi'r eisteddfod. Dewch yn llw, mae'n argoeli y cawn eisteddfod dda eto, ond mae eisiau cynulleidfa i gefnogi'r cystadleuwyr. Rydych yn colli gwledd wrth beidio mynychu'r eisteddfod.

Diolch

Dymuna Gwenan a Richard, Ger-y-llan a'r teulu ddiolch o galon i'r holl ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu colled. Diolch i'r Parchedigion Peter Thomas am y gwasanaeth urddasol i Mam ac i Judith Morris am wasanaeth Aunti Blod. Hefyd mawr ddiolch i deulu a staff Cwmcynfelin am y gofal tyner a gafodd mam Gwenan ac i Cartref Dyfi, Machynlleth am ofal tyner Aunti Blod.

Eric Thomas

Ganwyd Eric ar y 6ed o Dachwedd 1938 yn y Felin, Penrhyn-coch, yr ieuengaf o chwech o blant 6 i Joseph a Margaret Thomas. Roedd yn frawd i Henry a'r diweddar Arthur, Janet, Ted a Bronwen. Ar ôl mynychu Ysgol Penrhyn-coch - oedd ar y pryd yn yr hen ysgol y drws nesaf i'r eglwys aeth i Ysgol Dinas, Aberystwyth - ger yr orsaf.

Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio yn y Comisiwn Coedwigaeth am flwyddyn cyn mynd am brentisiaeth saer gyda W H Jenkins a'i fab.

Ym 1967 dechreuodd y cwmni adeiladu Thomas Brothers gyda'i frodyr Henry a Ted; cafodd llawer o fechgyn lleol waith gyda'r cwmni

Dyma'r cwmni adeiladodd Maesyfelin, Glanffrwd, Tan-y-berth, Maesyrefail, Glan Ceulan a Garn-wen ym Mhenrhyn-coch heb sôn am nifer o rai eraill yn yr ardal oedd o amgylch cyffiniau Aberystwyth.

Priododd â Gwenda ym 1970 yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch a mynd i fyw yn un o'r tai a adeiladodd ei hun ym Maesyfelin, cyn symud i Golygfa ac yna ei gartref presennol, Gwelfor.

Cawsant ddwy ferch - Catrin a Sioned; croesawodd ei feibion yng nghyfraith John a Matthew i'r teulu a thri ŵyr - Wil, George ac Owen ac wyres - Elisa.

Bu'n ymwneud â Chlwb Pêl-droed Penrhyn-coch ers dros ddeugain mlynedd - bu'n chwaraewr i'r clwb yn y blynyddoedd cynnar a chwmini y Brodyr Thomas oedd yn arolygu adeiladu'r Clwb Cymdeithasol ym 1981. Ef oedd Cadeirydd cyntaf y Clwb Cymdeithasol ac am flynyddoedd bu'n gadeirydd y Clwb Pêl-droed cyn ei wneud yn Is-lywydd hiroes y Clwb. Byddai'n selog ar ddydd Sadwrn yn rhoi cefnogaeth i'r bechgyn pêl-droed boed yn gêm gartref neu yn gyrru'r bws i gêmiau oddi cartref.

Yfaint fwyaf a gafodd yn ymwneud â'r pêl-droed oedd derbyn medal gwasanaeth hiroes gan GYMDEITHAS PÊL-DROED CYMRU yn 2006.

Ymhlith di ddiddordebau eraill oedd chwarae pŵl a dartiau yn ystod yr wythnos, mwynhau mynd am ambell wyliau i Twrci gyda Gwenda a'i ffrindiau. Ble bynnag yr âi Eric 'roedd yn gwneud ffrindiau newydd.

Cafodd y pleser o weld Wil a George, ei wyrion hynaf, yn chwarae pêl-droed i dîm dan 9 oed Penrhyn-coch a byddai yn aros yn eiddgar ar fore Sadwrn i glywed y sgôr a hanes y gêm gan y

ddau pan na allai fynd i'w gweld yn chwarae.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Ioan ar y 12fed o Dachwedd 2007, dan ofal y Parchedig John Livingstone yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Ifan Mason Davies a Judith Morris, ac mae ei deulu yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Livingstone am bob cymorth, ac am ei ymweliadau cyson â'r cartref a'r ysbyty yn ystod gwaeledd Eric. Hefyd ein diolch i Rhian Davies (organydd), Phillip, Graham, Ceinion a Llew yr archgludwyr, i Edwina a Gwyneira (wardeiniaid Sant Ioan), i Shirley a'i staff, Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch ac i W H Daniels am drefnu popeth gydag urddas.

Dymuna Gwenda, Catrin a Sioned a Henry, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant o golli priod, tad, tad yng nghyfraith, tad-cu, brawd a brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl. Diolch am y llu cardiaid, llythyrau, blodau a galwadau ffôn a'r ymweliadau gwerthfawr, ac am y rhoddion o £1,000 a dderbyniwyd tuag at Ward Meurig (Cronfa Offer), lle cafodd y gofal gorau. Mae'n diolch yn enfawr i'r holl staff yno, hefyd meddygon a nyrsus meddygfa'r Borth.

Diolch

Dymuna Gwyneira Evans, yr Efail Penrhyn-coch ddiolch am y fraint a'r anrhydedd o dderbyn y rhodd o 'Fedal Gee' Thomas a Suzanna Gee, Dinbych am ffyddlondeb a gweithgarwch i'r Ysgol Sul am flynyddoedd maith. Diolch i'm gweinidog y Parchg Richard Lewis, Noddfa, Bow Street am anfon y cais i Gyngor Eglwys Rhyddion Cymru a bod yn llwyddiannus ar fy rhan. Siom iddo a minnau iddo fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod anrhydeddus a gynhaliwyd yn Eglwys yr Annibynwyr, Bethesda, Tymbl dydd Gwener, Ionawr 25ain, 2008, oherwydd amgylchiad trist un o aelodau ei ofalaeth.

Dechreuodd y daith at y rhodd werthfawr mewn bywyd trwy arweiniad fy niweddar rieni a chwmni fy mrodyr trwy gerdded y ddwy filltir i oedfaon a chwrdd plant wythnosol i Salem, Coedgruffydd ac yn gynnar iawn yn fy mywyd i Ysgol Sul, Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch a oedd daflad carreg o ddrws fy nghartref.

Yna symud ym 1941 i Gapel Bach, Bow Street bryd hynny, a enwyd yn Noddfa ym 1973. Yna ychydig flynyddoedd yn Sarn, Gendras, Abertawe ac yn ôl i Noddfa. Diolch am y llongyfarchiadau a dymuniadau da a dderbynias, trwy lafar, galwadau ffôn, cardiaid a llythyrau.

Diolch i'r gefnogaeth a ddaeth yn y bws a logwyd ac yn eu ceir, o aelodau Noddfa, ffrindiau, a pherthnasau o Benrhyn-coch, Llanllwni, Llangennech a'r Goppa, Pontarddulais.

Diolch am y darpariadau o logi'r bws, am gyfraniad hael Noddfa tuag at gostau'r bws, am gyfarwyddiadau ymlaen llaw at fwyty i gael cinio blasus cyn cyrraedd y capel, a'r te hyfryd a



Yn dilyn oedfa brynhawn Sul, y 3ydd o Chwefror, cynhaliwyd te dathlu yng nghapel Horeb i nodi pen-blwydd arbennig Mrs Morfudd Morris yn 90 oed. Traddodwyd anerchiad pwrpasol gan y cyn-weinidog, y Parchedig Peter Thomas, a darllenwyd penillion gan Mrs Mairwen Jones. Yn y llun gwelir Mrs Morris yn torri'r gacen a baratowyd gan Mrs Meryl Thomas, gwraig y Parchedig Peter Thomas. Yr oedd yn achlysur hapus iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain. Dymunwn yn dda i Mrs Morris.

drefnwyd i bawb gan Chwiorydd Bethesda ar ôl y cyfarfod cyn dechrau yn ôl ar ein taith.

Fe'n bendithiwyd â diwrnod heulog sych rhwng y tywydd stormus gaeafol.

Derbyniodd un ar ddeg y 'Fedal Gee' a thair tystysgrif. Pedwar o Geredigion, dwy i Penllwyn, Capel Bangor, un i Capel M.C. Pennant ac un i Noddfa.

Dyma'r ail Fedal Gee i Noddfa, anrhydeddwyd y diweddar Mr B T Williams, Hendre gwyndir, Bow Street, ag un nôl ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf.

Hyfryd oedd derbyn yr anrhydedd o set fawr Bethesda'r Tymbl, lle y bu'r Parchg E Eurfin Morgan, un o ardal Tincer, un o blant Eglwys Siloh, Cwmerfin yn weinidog o 1949-1976 hyd ddiwedd ei yrfa a gofal capel. Hefyd yn bresennol yn yr oedfa oedd y Parchg Ieuan Davies sydd â chysylltiadau â'r Gerlan, Y Borth, ei fam o'r Crossing, Y Borth, a lle y treuliodd llawer

o'i ylliau gyda'i dad a'i nain. Fe'i ganwyd yn y Tymbl a'i ddwyn i fyny yn Bethesda'r Tymbl.

Trefnydd yr oedfa ar y diwrnod oedd y llywydd y Parchg Ddr Ian D Morris, Pontarddulais, a groesawodd pawb o'r gwahanol eglwysi. Y rhannau arweiniol, y Parchg Emyr Gwyn Evans gweinidog presennol Bethesda. Urddo'r is-lywydd i'r llywyddiaeth y Parchg Dyfrig Rees, Rhydaman, gan y Parchg Ddr Ian D Morris a'r weddi. Yna pregeth gan y llywydd presennol yna cyflwynodd y medalau a'r tystysgrifau.

Diolch am ddiwrnod i'w drysori a chofio amdano. Diolch i bawb.

Urdd Gwragedd Sant Ioan

Gwestai mis Ionawr oedd Mr John Ockey, Milfeddyg sydd wedi ymddeol bellach ac yn byw yn Llanbadarn Fawr. Ar ôl hanner can mlynedd o weithio dros y wlad, gan ddechrau ei yrfa yn fyfyrwr yn Henffordd, cyn graddio yn Lerpwl, ac yna treulio degawdau mewn ardaloedd fel yr Amwythig, Buxton a Phenfro. Cawsom hanesion a helyntion ei yrfa, a sut mae'r proffesiwn wedi newid dros y blynyddoedd.

Nos Lun, Chwefror 3ydd, cafwyd sgwrs gan y Parchg John Livingstone am 'Wisgoedd Clerigwyr'. Dechreuodd drwy sôn am y terfysg a fu yn Exeter yn y flwyddyn 1840 pan ymddangosodd y Wenwisg Offeiriadol yn boblogaidd yn lle'r Casog Ddu oedd yn cael ei wisgo gan y To Hŷn. Daeth ag amrywiaeth o ddillad sydd yn ei feddiant i ddangos ac i egluro eu swyddogaeth fel yr 'Alb' gwisg wen a wisgir yn yr offeren, ar 'Chasuble' o amrywiol liwiau a ddefnyddir ar wahanol dymhorau mewn gwasanaeth grefyddol, dywedir i'r 'Chasuble' fod yn symbol o glogyn di-wniad yr Iesu. Diolchwyd i'r Ficer am noson ddiddorol gan ein llywydd, Edwina Davies.

Eglwys Sant Ioan

Bedydd

Yn ystod gwasanaeth bore Sul, Ionawr 13eg bedyddiwyd Gwennan Hedd, merch Lynwen ac Ifor Jenkins, Kerry, Waunfawr, gyda chynulleidfada ddau yn bresennol.

Angladd

Bu angladd y diweddar Evan Lewis Davies (Ieu), Elan, 16 Maesyrefail, ddydd Mercher, Ionawr 16eg. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg John Livingstone, yr organydd oedd Eirwen Hughes. Cydymdeimlir â'r holl deulu yn eu colled.

Bingo

Ar nos Wener, Ionawr 18fed, cafwyd noson Bingo llwyddiannus er budd yr eglwys yn yr hen ysgoldy. Roedd y noson yng ngofal Barbara a Terry Couling.

CAPEL BANGOR

Sefydliad y Merched – Pen-llwyn, Capel Bangor

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2008 ar y 9^{fed} o Ionawr. Ar ôl y cyfarfod busnes, gofynnwyd i'r aelodau i drafod unrhyw bwnc a fynnent am bum munud! Cafwyd storiâu am geir, am deithiau tramor ac am y profiad o fyw mewn rhan arall o'r byd.

Adroddwyd eu hanes yn ymweld â'r Senedd Ewropeaidd yn Strassbourg gan y chwech aelod a fu ar y daith yno gyda'r Sefydliad. Y teithwyr oedd Margaretta Jones, Elizabeth Evans, Brenda Evans, Marie Howells, Ann James a Mair Jenkins. Yn amlwg, cafwyd hwyl arbennig o dda!

Talwyd llongyfarchiadau i Margaret Jones ar gyhoeddi ei hunangofiant *It came to pass*. Mae Margaret yn gyfarwydd i bawb yn yr ardal.

Ar 16^{eg} Ionawr, cafwyd cinio bynyddol gaeaf yr aelodau, yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las. Bu blas ar fwyd!

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r grŵp ar 13^{eg} Chwefror, pan fydd Jane Raw-Rees o Age Concern yn dod atom. Bydd croeso gwresog o gynnes i unrhyw un a hoffai ymuno â ni.

Neuadd y Pentref, Pen-llwyn, Capel Bangor

Enillwyr Clwb 100

Rhagfyr 2007

£20 – 12 – Mike Bentham, Cefn Melindwr, Capel Bangor
 £10 – 59 – John Lewis, Glasfryn, Capel Bangor
 £5 – 72 – Llewela Thomas, Llwynteg, Capel Bangor
 £5 – 44 – Sian Spink, Cefn Melindwr, Capel Bangor

Ionawr 2008

£20 – 65 – Iona Evans, Garej yr Exchange, Capel Bangor
 £10 – 35 – Merched y Wawr Cangen Melindwr, Capel Bangor
 £5 – 42 – Liz Collinson, Dolcniw, Blaengeuffordd
 £5 – 28- DIH Jones, Ty'n y Glog, Ffordd Bryn y Môr, Capel Bangor

Pwyllgor Apêl Melindwr

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Pen-llwyn nos Fercher 20 Chwefror am 7.30 o'r gloch i drefnu Is-bwyllgor Apêl yr ardal i godi arian a threfnu gweithgareddau erbyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010. Gwerthfawrogrir presenoldeb trigolion yr ardal yn y cyfarfod.

Mr Emrys Evans Brynsiriol

Bu farw Mr Emrys Evans yn dawel yn Ysbyty Bron-glais, Aberystwyth, ar y 7fed o Ionawr



Medalau Gee

Fel y gwyddoch o'r rhifyn diwethaf 'roedd Mr a Mrs Martin ac Anne Davies, Maencrannog, i'w hanrhydeddu a'r fedal Gee. Aeth rhai ohonom i gapel Bethesda, Y Tymbl, ger Llanelli ar ddydd Gwener Ionawr 25ain, i'r gwasanaeth arbennig hwnnw, yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru.

Cyflwynwyd medalau Mr a Mrs Thomas Gee i un ar ddeg o bobl am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul dros amser maith. Mae'n debyg mai ond un waith o'r blaen mae gŵr a gwraig wedi derbyn medal yr un, yn yr un cyfarfod. Yn ddigon naturiol un o'r emynau a gyddanwyd oedd Am yr Ysgol råd sabothol, Clod, clod i Dduw. Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn, a da oedd bod yno.

Mwynhawyd te dathlu blasus iawn, wedi'r cyfarfod. Felly llongyfarchiadau eto i Mr a Mrs Davies, a diolch i Dduw amdanynt, y ddau wedi bod yn athrawon penigamp yn Ysgol Sul Pen-llwyn, a Mr Davies wrth gwrs yn dal i fod yn athro ar ddsbarth yr oedolion. Mae Mrs Davies wedi mynychu lan hyd bump o wahanol Ysgolion Sul yn ystod ei bywyd, record go dda ynte?

Cymuned, a chymryd diddordeb mawr yn mhenderfyniadau lleol. Roedd bob amser a chonsyn am unrhyw un a fyddai yn sâl, a gall ei gymdogion dystio i garedigrwydd Emrys a Blodwen yn y gorffennol, pan oedd eisiau cymorth roeddent wastad yno.

Ei gryfderau heb amheuaeth oedd ei gonsyn am ei wraig ac eraill, yn ystod salwch. Hefyd ei ddewrder yn dod i dermau â'i salwch ei hun a siomedigaethau bywyd, a bod yn achos o chwerthin ble bynnag yr âi.

yn 82 mlwydd oed. Roedd ei iechyd wedi gwaethgu dros y flwyddyn ddiwethaf, ond serch hynny daeth ei farwolaeth yn sioc i bawb a oedd yn ei 'nabod.

Dioddefodd lawer yn ystod ei fywyd ond yr oedd bob amser yn berson hapus a llon ac yn dipyn o dynnwyr coes yng nghwmni cyfeillion.

Ganwyd Emrys yn un o bedwar o blant i William a Louisa Evans, a chafodd ei fagu yn Nerwen-las. Siaradai lawer am ei blentyndod yno, yr Ysgol Gynradd, ac yn ddiweddarach yr Ysgol Uwchradd ym Machynlleth. Carai chwarae pêl-droed yn fawr iawn, a chefnogodd dîm Maenceinion (Unedig) hyd y diwedd. Yn 16 a hanner mlwydd oed, dioddefodd anaf i'w goes, a threulio deunaw mis yn Ysbyty Gobowen. Cafodd lwyd iachad ar y pryd, ond daeth yr hen achwyniad yn ôl wedi 36 o flynyddoedd, ac o'r herwydd dioddefodd mewn un ffordd neu'r llall am weddill ei fywyd.

Yn ogystal a gweithio yn Smiths Machynlleth pan yn fachgen ieuanc, gwnaeth ei brentisiaeth fel gweithiwr llenfetel. Pan gaeodd y ffatri, cafodd waith gan Gwmni De Haviland Caer, yn cynhyrchu rhannau awyrennau.

Priododd â Blodwen Jenkins yng nghapel Pen-llwyn ym 1950, ac wedi priodi bu Emrys yn gweithio am gyfnod ar fan ddillad Elwyn Williams, ac hefyd Morgan a Jones, yn teithio o amgylch y ffermydd, fel 'roedd yn arferol y pryd hynny. Ond yng Nghwrmrheidol ar Gynllun Trydan Dŵr y bu wedyn am flynyddoedd, gyda Chwmni Taylor Woodrow. Ym 1961 apwyntiwyd ef yn un o dri i weithio y twrbeins, ac yn ddiweddarach bu yn gyfrifol am gyfarpar arbed tân yng Nghwrmrheidol a Nant-y-moch, tan ei ymddeoliad ym 1991.

Rhoddodd amser i'r Gymuned Leol, a bu am gyfnod yn aelod o'r Cyngor

Mae llawer yn drist o'i golli, a chydymdeimlwn yn enwedig â Blodwen ei wraig, ei chwaer goroesol Rhiannon a'i frawd Gwilym. Bu gwasanaeth ei angladd ar 12ed Ionawr yng nghapel Pen-llwyn yng ngofal y Parchg Ifan Mason Davies. Cymerwyd rhan hefyd gan Mr Martin Davies, a chwaraewyd yr organ gan Mrs Enid Vaughan. Yr archgludwyr oedd Mr Billy Evans, Mr Roy Dryburgh, Mr Raymond Williams a Mr Gerald Powell. a dosbarthwyr y taflenni oedd Mr Eilir Morris a Mr Aneurin Morgan. (cydweithwyr a ffrindiau)

Dymuna Blodwen a'r teulu ddiolch i bawb oedd yn yr angladd, y Parchg Ifan Mason Davies, Mr M Davies, Mrs Enid Vaughan, yr archgludwyr a dosbarthwyr y taflenni. Diolch am gyfraniadau tuag at Ward Meurig ac am bob neges o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth.

Ŵyr bach newydd

Llongyfarchiadau i Meic a Liz Collison, Dolcniw, ar ddod yn dad-cu a mam-gu eto, i faban bach Rachel (eu merch) a Jonathan sy'n byw yn Knutsford, Swydd Gaer. Croeso i Iestyn Rees, brawd bach i Evan a Gwion.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr a Mrs Hywel a Enid Jones, Awel Deg, sy'n dathlu pum deg mlynedd o fywyd priodasol ar Fawrth 22ain.

Capel Pen-llwyn Bedydd

Cafwyd gwasanaeth hyfryd yng nghapel Pen-llwyn fore Sul, Chwefror 3ydd yng ngofal y Parchg W J Edwards, Bow Street, pryd y bedyddiwyd Owen Elis, baban Elystan a Catrin Evans, Ardwyn.

Y festri

Mae'r festri o'r diwedd ar ei newydd wedd, ac i bawb gael gweld y canlyniad, y bwriad yw cynnal noson goffi ar Fawrth 14eg. Mae croeso i holl aelodau y capel a phawb.

Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Mr Norman Michell, Ponterwyd, ein dyn llaeth am 44 o flynyddoedd. Diolch am ei ffyddlondeb, gallaswn bob amser ddibynnu ar Norman. Byddai eich peint ar ben drws boed unrhyw dywydd, stormydd eira neu himdda! Hyderwn y caiff iechyd da ac ymddeoliad hir. Dymuniadau gorau iw ddilynwyr Paul a Tracey Lowe, Ponterwyd.

Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg, clywsom fod Mr John Davies, Glasfryn, yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn iddo wellhad buan.

Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar noson aeafol ym mis Ionawr cyfarfu'r aelodau yn Neuadd y Pentref ar gyfer ein cyfarfod misol. Wedi ymuno â ni roedd aelodau o ddwy gangen arall, sef cangen Mynach a Rhydypennau. Croesawyd pawb gan y llywydd, Liz Collison. Alun Edwards oedd y gŵr gwadd, ond fel Alun Elidir mae pawb yn ei adnabod bellach. Treuliwyd noson ddifyr yn ei gwmni, pryd y bu'n sôn am ei brofiadau yn y Brifysgol yn Aberystwyth, ei waith llwyfan a'i waith o flaen y camera. Nid oedd pall ar ei ynni a'i frwdfrydedd wrth iddo roi i ni ddarlun o'i fywyd. Clywsom am ei

brofiadau fel actor gyda chwmnïau fel Theatr Crwban a sut y'i dewiswyd un tro fel dawnsiwr. Diddorol oedd clywed am ei droeon trwstan wrth iddo deithio o un pen i Gymru i'r llall.


Beti Daniel a ddiolchodd i Alun Elidir am ein diddori. Yn ystod ail hanner y noson mwynhawyd sgwrsio tra'n gwledda ar fwyd a baratowyd gan aelodau'r gangen. Gwnaed y te gan Eirlys Davies, Brynmeillion a Margaret Stevens.

Wrth adael y neuadd ar ddiwedd y noson, roedd pawb yn falch iddynt fentro allan ar noson mor arw ac yn teimlo'n well ar ôl cael llond bol o chwerthin.

JOHN MORGAN, PWLL-GLAS

Gwyddwn cyn mynd i Batagonia i weinidogaethu am dri mis fod yr hynaf o ddeuddeg o blant David ac Anne Morgan, fferm Pwll-glas yn un oedd ar fwrdd y Mimosa ym 1865 ag yntau'n 29 oed. Un o'i frodyr oedd William, tad-cu y cyfaill Elystan, y gwrda a gododd Garn House ym Mhen-y-garn, siop a chanolfan busnes pwysig gynt. Mae'r nodyn sy'n cyfeirio at John yn ymfudo yn dweud iddo symud ym 1870 ac ymsefydlu yn Santa Fe. Ar ôl imi gyfarfod y chwiorydd Nelia, Glenda a Marta Humphreys a'u brawd John y pensaer enwog, welwyd ar un o raglenni Aled Samuel llynedd cefais wybod fod John eu hen daid ac Elizabeth ei wraig wedi cydweithio gyda mab Pwll-glas i sefydlu gwladfa i'r Cymry.

Mab fferm Glyntwymyn, Comins-coch (yno y maged Annie Edwards, Garreg Lwyd, cyn i'r teulu symud i fferm Abergwydol) oedd yr hen daid a'i wraig wedi'i magu ym Machynlleth. Priodwyd y ddau yma ar 12 Mai 1860 yng nghapel y Graig, Machynlleth, sydd dan fy ngofal ar hyn o bryd. Symud i Flaenau Ffestiniog, John yn chwarelwr, wedi geni Margaret, Elizabeth, Mary a David, ymfudodd y teulu i Pajaro Blanco, Talaith Santa Fe. David oedd taid Nelia, Glenda, Marta a John.. Marta yw hanesydd y tylwyth a chafodd y drydedd wobwr ym Mhrifwyl



Teulu Pwll-glas

yr Wyddgrug am sgrifennu hanes ei theulu.

Gan Marta y cefais wybod am gysylltiad ei hynafiaid â John Pwll-glas. Rhoddodd imi ddarn o lythyr yn Saesneg ganddo. Pan oeddem yn Santa Fe clywsom fod criw o Gymry yn dod atom. Wrth fynd i gysgu clywem rywrai'n siarad yr 'hen iaith' a synwyd fi o weld mai fy nghefnidryd Richard a David Morgan oedd yn siarad. Mae'n siŵr fod yna dipyn o siarad y noson honno cyn clwydo. Mae Marta yn parhau i chwilio am ragor o hanes y berthynas rhwng John Morgan a'i hynafiaid. Wedi marw John ac Elizabeth Humphreys a'u claddu yn Santa Fe mudodd y plant a'r wyrion i Ddyffryn Camwy ac y mae'r disgynyddion yno yn lleng.

Llwyddais i gael gafael ar fanylion am John Pwll-glas mewn cofnodion

am fedyddiadau a marwolaethau. Ar 11 Mawrth 1880 nodir fod tri o blant i John a Winifred Morgan wedi'u bedyddio – Annie g.29 Awst 1876, David g.4 Gorffennaf 1877, a Sophia g. 18 Ionawr 1879. Chwe mis ar ôl y bedyddio bu farw John y tad o'r dicau yn 46 oed. Byddai'n dda gwybod beth fu hanes y weddw a'r plant – mae Marta yn dweud fod John Morgan wedi prynu tiroedd nifer o'r Cymry a bod ei ddigynyddion yn Santa Fe o hyd. Roedd un o blant John yn Buenos Aires ac y mae Elystan yn cofio Dewi ei dad yn dweud wrtho fod tad Anna Jones, Pantgwyn, Bow-Street, capten llong o'r Borth wedi galw yn y cartref yn y ddinas ar ddiwrnod cyntaf y rhyfel ar 4 Awst 1914. Collwyd y capten fis cyn diwedd y rhyfel ym Môr Iwerydd, pan oedd Anna ei ferch yn 8 oed.

WJ Edwards

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDIOL

Urdd y Benywod

Ganol Ionawr cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Hafod Pontarfynach. Cawsom bryd blasus o fwyd ac yna bu pawb yn dyfalu pwy oedd pwy o luniau ohonom yn blant. Yr enillydd oedd Carol Marshall. Diolch i Amanda Burton ac Ann Ellis am drefnu y noson.

Nos Lun Chwefror 4eddd cawsom noson yng nghwmni John a Carol Marshall. Dros y Nadolig 2006 treuliodd y ddau chwech wythnos yn ymweld â theulu Carol yn Seland Newydd ac Awstralia. Treuliasant bedar diwrnod yn cerdded llwybr ar gyfer twristiaid o amgylch Ynys y De. 'Roedd y golygfeydd yn syfrdanol ac mi wnaeth y ddau ein tywys o amgylch y wlad yn eu ffordd gartrefol. Diolchwyd iddynt gan Beti Daniel ac Ann Ellis a Amanda Burton oedd yng ngofal y te.

Swyddi newydd

Dymuniadau gorau i Rhys Williams, Ty'nwern, yn ei swydd dros dro gyda E&M Motors yn Llanbadarn.

Pob hwyl hefyd i John Marshall yn ei swydd newydd gyda chwmmi o Awstralia.



Menna a Dylan Stephens

DOLAU

Diolch

Mae Nest a'r teulu, Nantgwyn, yn gwerthfawrogi a diolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad, caredigrwydd a rhoddion a dderbyniwyd ar farwolaeth Rhys yn ddiweddar.

DOL-Y-BONT

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ym Methlehem, Llandre, nos Fercher, 12 Mawrth am 7.30 o'r gloch i drefnu Is-bwyllgor Apêl yr ardal i godi arian a threfnu gweithgareddau erbyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010.

Taer erfynnir am bresenoldeb trigolion yr ardal yn y cyfarfod pwysig yma.

TREFEURIG

Symud

Dymuniadau gorau i Llinos a John Evans. Cartrefle, sydd wedi symud o Dreffeurig i Maeshendre, Waunfawr, Aberystwyth. Croeso i ddeiliaid newydd Cartrefle.

CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned yn Ysgol Trefeurig nos Fawrth, 15 Ionawr, gyda'r Cadeirydd, y Cyng. Kari Walker, yn y gadair a chwe chynghorydd arall a'r Clerc yn bresennol.

Nodwyd bod y biniau baw cŵn wedi'u gosod yn y cae chwarae. Hefyd roedd y ffosydd gan ochr y ffordd o Gapel Dewi i Gefn Llwyd wedi'u glanhau, a'r dail a'r brigau a oedd wedi crynhoi ar y ffordd wedi cael eu clirio. Nodwyd bod y Clwb Cinio a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys ar ail a phedwerydd dydd

Mercher pob mis ar gyfer yr henoed a'r anabl yn cael derbyniad da.

Roedd y Cyng. D. Mervyn Hughes wedi bod mewn cyfarfod o Gorff Rheoli Ysgol Penrhyn-coch. Roedd y corff hwnnw hefyd yn bryderus am ddiffyg ymgynghori gan y Cyngor Sir o ran y Cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol. Nodwyd fod y Prifathro wedi trefnu cyfarfod ar gyfer 21 Ionawr i drafod y mater, ac enwebwyd y Cadeirydd a'r Cyng. Daniel Huws i'w fynychu ar ran y Cyngor.

Trafodwyd hefyd lythyr oddi wrth Adran Briffyrdd Ceredigion at bwyllgor y cae chwarae ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyng. Ray Quant, yr aelod perthnasol o Gabinet Ceredigion, er mwyn cwyno ymhellach am ddiffyg ymgynghori'r Adran Briffyrdd yn y mater hwn, a'u methiant i ateb llythyrau.

Roedd Cyngor Ceredigion wedi cychwyn ar y broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol, ac wedi anfon y ddogfen gyntaf allan i ymgynghoriad.

Nodwyd fod y Cyng. Richard Owen wedi cytuno i edrych ar y ddogfen a llunio unrhyw ymateb angenrheidiol.

Trafodwyd y sefyllfa ariannol yn y flwyddyn bresennol a'r darpariaethau angenrheidiol ar gyfer 2008/09, a phenderfynwyd gosod archebiant o £11,000 ar gyfer 2008/09, sef £2,000 yn llai nag yn y flwyddyn bresennol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn, nos Fawrth, 19 Chwefror am 7.00pm.

GOGINAN

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs. Mair Evans, Idris Villa, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith ym Mhonterwyd yn ddiweddar.

Cymeradwyaeth Uchel

Llongyfarchiadau i Lewis Johnston, Tafarn Y Druid ar ôl iddo dderbyn tystysgrif o Gymeradwyaeth Uchel mewn cystadleuaeth gyda Barclays i fusnesau yn ardal Menter Busnes Aberystwyth. Braff yw gweld bachgen ifanc lleol yn llwyddiannus.

CLARACH LLANGORWEN

Bore coffi

Cynhelir bore coffi tuag at Fâd Achub Aberystwyth yn Neuadd Rhydypennau fore Sadwrn y 15fed o Fawrth o 10 - 12. Trefnir gan Eglwys yr Holl Saint Llangorwen. Croeso i bawb. Dewch yn llu i gefnogi achos teilwng mewn ardal arfordirol.

COLOFN MRS JONES

Cyfeiriodd William Salesbury (tua 1520- - 1584) at 'yr iaith sy'n cychwyn ar drangwydd', ymadrodd sy'n cyfeirio at bryderon Salesbury am barhad yr iaith lenyddol mewn cyfnod a welodd drai ar y traddodiad barddol a chynnydd yn y defnydd o Saesneg yng Nghymru.

Diolch am eich neges. Dw i ddim yn siwr achos dydy Huw ddim wedi bod yn gweithio. Mi fyddwn i siarid efo chi pan dw i wedi chwilio rhywun.

Mae dy llythyr yn barod i ti fan hyn Cafodd y ffordd ei chau am rai oriau er mwyn clirio'r gweddillion ond mae o wedi ail agor.

Dywedodd yr heddlu bod gan un anafiadau difrifol ac yn Ysbyty Glan Clwyd.

A dyma beth y mae'r pedwar yn ceisio ei ddweud -

Diolch am eich neges. Nid wyf yn siwr oherwydd nad yw Huw wedi bod yn gweithio [yn ddiweddar]. Mi fyddaf yn siarad a chwi eto pan fyddaf wedi dod o hyd i rywun.

Mae dy lythyr di yn barod [i'w arwyddo] fan hyn.

Caewyd y ffordd am rai oriau i glirio'r gweddillion ond y mae wedi ail agor bellach.

Dywedodd yr heddlu fod gan un anafiadau difrifol a'i fod yn ysbyty Glan Clwyd.

Paham fod y brawddegau yma, a dynnais o ohebiaeth preifat o'r eiddof fy hun ac o wefan Gymraeg y BBC wedi f'atgoffa i o'r hen Salesbury? Poeni yr oedd o y gallasai'r iaith lenyddol fynd i e bargofiant, profi yr ydwyf ei bod wedi mynd i e bargofiant yn llwyr a bod ysgrifennu Cymraeg cywir wedi mynd yn beth od ar y naw.

Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw paham fod y sefyllfa adfyddus hon wedi codi. Mae'n rhaid datgan un peth cyn cychwyn, mae Cymraeg ysgrifenedig yn iaith anodd iawn ag iddi sawl rheol sydd nid yn unig yn adlewyrchu gwreiddiau Beiblaidd yr iaith ond rhai rheolau sillafu sydd yn dangos perthynas yr iaith a Brythoneg. Sail yr iaith lenyddol yn ei hanfod yw'r gymysgedd yna o dafodiaith y Gogledd a'r eirfa farddol a ddefnyddiodd y cyfieithwyr ac fel y mae gwybodaeth o Feibl 1588 wedi cilio, y mae cadw safonau'r iaith wedi mynd yn anos. Yn yr un modd, y mae orgraff yr iaith - y ffordd y mae'n cael ei sillafu, os mynnwch - yn peri problemau. Rhwir dwy n yn y gair dyffrynnoedd er mwyn ein hatgoffa mai tarddiad y gair yw'r geiriau Brythoneg dubros hentos, ystyr y gair dyffryn yw rhediad y dyfroedd. Y mae lle cryf i ddadlau fod rheol fel hyn yn profi parhad gwyrthiol ystyron geiriau ond y mae lle cryfach i ddadlau fod dyblu n yn creu problemau diangen ac

yn milwrio yn erbyn natur ffonetig y Gymraeg lle yr yngenir yr hyn a welir ac y sillefir yr hyn a glywir. Y mae lle i symleiddio yr iaith lenyddol ond nid ar draul cywirdeb sylfaenol.

Pwrpas ysgrifennu iaith yw rhoi gwybodaeth i eraill yn eglur ac y mae methu ysgrifennu yn gywir yn creu problemau. Chwi welwch y bachau petryal sydd mewn dau ddyfyniad. Dynoda geiriau mewn bachau petryal rywbeth y mae golygydd y testun wedi ei roi i mewn i egluro'r darn - a dyna yn union yw eu pwrpas yma. Petai'r ddau a anfonodd yr ebyst ataf yn fwy cyfarwydd a rheolau ysgrifennu unrhyw iaith, fe fyddent wedi cynnwys y geiriau drostynt eu hunain. A sylwch ar y trydydd dyfyniad. Yn y rhan gyntaf, rhydd yr awdur genedl gywir y gair ffordd - ei chau - ond erbyn y diwedd, mae wedi colli gafael llwyr ar genedl y gair a defnyddio o gan newid cenedl y gair yn syth!

Ac, er gwaethaf fy haerid fod angen symleiddio'r iaith lenyddol, ni allaf fi fy hun faddau camgymeriadau fel hyn. Blerwch a difeindrwydd llwyr yw a thrasiedi'r sefyllfa yw nad ar yr awduron yn unig y mae'r bai. Gorwedd llawer o'r bai ar rieni nad ydynt yn gofalu fod plant yn darllen ac yn cael cyfle i ddod i adnabod teithi yr iaith a gorwedd y bai ar athrawon ysgol sydd yn fodlon derbyn iaith fel hyn ac sy'n fodlon haeru mai y rhyddid i ddweud sy'n bwysig ac nid y sut. Y gwir plaen yw, mae gwybod rheolau sylfaenol gramadeg yn rhyddhau'r gallu i hunan fynegiant nid ei lesteirio a'r gwir plaen arall ydi na fedr llawer o'n hathrawon ni ysgrifennu yn gywir oherwydd na ddsygwyd hwythau ychwaith i roi pwyslais ar ramadeg ac arddull.

Yng Nghymru, mae gennym broblem arall. Mae gennym ofn dweud dim rhag ofn mae dysgwyr ysgrifennodd y darn ag iddo dorri ei galon neu rhag ofn y gall hwnnw ein cyhuddo o fod yn hiliol. Nid oes angen ofni hynny o gwbl. Ydech chi'n meddwl am eiliad y derbyniasai Huw Edwards neu Guto Harri swyddi da gyda BBC Lloegr oni bai eu mod yn medru ysgrifennu Saesneg cywir a synhwylol? Pam ein bod ni yn fodlon derbyn llai yng Nghymru ac yn fodlon derbyn Cymraeg ysgrifenedig gwael? Y mae ymgyrch yn bodoli eisoes i hyrwyddo ysgrifennu Saesneg cywir - ac, oes, mae angen honno hefyd - mae'n hen bryd i ninnau ddechrau un hefyd tra y mae gennym bobl fedr greu brawddegau cywir dealladwy. A dylem wneud hynny ar fyrder, mae'n siwr gennyf fod yr hen Salesbury yn troi yn ei fedd fel olwyn trol!

Ac o na fai gennyf fi fy hun y wyneb i anfon fersiynau wedi eu cywiro o ohebiaeth yn ôl at bobl!

'O'R CYNULLIAD' - ELIN JONES AC

Mae sicrhau dyfodol ein gwasanaeth iechyd ni yng Ngheredigion wedi bod yn fater pwysig iawn imi ers y bygythiad i statws Ysbyty Bron-glais rhyw flwyddyn a hanner yn ôl. Ro'n i felly'n falch iawn cael gwahodd y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, i Dregaron yn ddiweddar er mwyn cynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr o gymdeithasau sy'n ymwneud ag iechyd yng Ngheredigion. Roedd yn gyfarfod adeiladol iawn ac roeddwn yn falch dros ben i glywed y Gweinidog yn datgan ei bod yn awyddus i gymeradwyo'r cynlluniau i fuddsoddi £33 miliwn mewn adnoddau newydd yn yr ysbyty.

Cyn y cyfarfod, cefais gyfle i ymweld ag Ysbyty Tregaron gyda'r Gweinidog er mwyn cael gweld y gofalu da sydd ar gael yno a chymaint mae'r cleifion yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Roeddwn felly'n falch bod y Gweinidog wedi datgan yn ystod y cyfarfod ei bod yn bwriadu sicrhau bod gwelyau yn y dyfodol yn Ysbyty Tregaron a'i bod am weld buddsoddi pellach yno. Mynegodd hefyd ei hymrwymiad i barhau gyda'r cynllun i adeiladu ysbyty newydd yn Aberteifi. Mae hyn yn newydd da tu hwnt a rhaid i ni barhau i ddatblygu'r cynlluniau yma er mwyn iddynt gael eu gwreddu cyn gynted â phosib.

Fe gadeiriais gyfarfod



yn Llanbadarn Fawr yn ddiweddar er mwyn i drigolion lleol gael mynegi eu pryderon i gynrychiolwyr o Network Rail am y mast telegyfathrebu fydd yn cael ei godi gerllaw'r rheilffordd ar gyrion y pentref. Mae cyfarfodydd tebyg eisoes wedi cael eu cynnal yn Llandre a Bow Street, ac rwy'n mawr obeithio y bydd Network Rail yn cymryd barn y bobl leol i wstyriaeth yn y cyfamser wrth iddynt orffen datblygu'r cynlluniau ar gyfer codi'r mastiau.

Rwyf wedi mynychu digwyddiad wedi ei drefnu gan Glwb Busnes Aberystwyth yn ddiweddar er mwyn codi arian tuag at Uned Clefyd y Siwgr er cof am y diweddar Ray Gravell. Cefais hefyd wahoddiad i siarad ag aelodau o Brifysgol y Drydedd Oes yn ddiweddar yn Aberystwyth am fy ngwaith fel Aelod Cynulliad. Roedd yn bleser cael derbyn y gwahoddiad ac roedd gan yr aelodau ddiddordeb mawr mewn cael gwybod sut mae'r Cynulliad yn gweithio.

Elin Jones AC

GWESTY
Tynycornel
HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ

Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cylan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.

Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafeli i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.

AM FWY O FANYLION Ffôn: 01654 782 282

**SWYDDFA'R POST
BOW STREET**

NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH

PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

M. Thomas
Plymwr lleol
 Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog
 Ystafelloedd ymolchi
 Cawodydd
 Pob math o waith plymwr
 Prisiau rhesymol
 Ffôn symudol 07968 728 470
 Ffôn ty 01970 820375

**SIOP A
 SWYDDFA BOST
 PENRHYN-COCH**
 Perchennog: F. C. Jenkins
 Ar agor
 Llun - Sadwrn
 7 y bore - 9 yr hwyr
 Sul
 8 y bore - 6 yr hwyr
 papurau dyddiol a'r Sul
 llyfrgell fideo
 cardiau cyfarch
 siop drwyddedig
FFÔN: 8283 12

Y TINCER

TAITH CERYS

Ym mis Hydref, byddaf yn ymuno â phedwar ddeg o bobl eraill o Gymru ar daith gerdded un diwrnod ar ddeg i Batagonia. Yno, o dan arweinyddiaeth Iolo Williams, byddwn yn cerdded ym Mharc Cenedlaethol Los Glacieres am 7-9 awr y diwrnod er mwyn codi arian i Mencap. Mae Parc Cenedlaethol Los Glacieres yn ymestyn am fwy na 6000 o gilomedrau sgwâr yn Ne yr Ariannin - gyda'r uchafbwyntiau yn cynnwys Mount Fitzroy (3405m) a Cerro Torre (3128m).

Ar ôl glanio yn Buenos Aires ar y diwrnod cyntaf, byddwn yn hedfan i El Chalten, pentre bach wrth droed Mount Fitzroy. O'r fan honno, byddwn yn cerdded i Laguna Toro, dros bum diwrnod, taith o tua 80 km. Bydd yn rhaid campio dros nos, gyda chyfleusterau sylfaenol iawn, mewn tymheredd a all amrywio o 3-11 selsiws..

Ar yr wythfed diwrnod, cawn gyfle i ymlacio ac ymweld â Penrhyn Valdes, sef Safle Treftadaeth Naturiol y Byd gan



i'r Gaiman a Dyffryn yr Afon Camwy, i ymweld â'r gymuned Gymraeg, cyn teithio nôl i Buenos Aires i ddal yr awyren nôl i Lundain.


Yn naturiol, mae'n rhaid i mi godi swm sylweddol o arian cyn mynd, er budd Mencap. Byddaf yn trefnu nifer o weithgareddau er mwyn gwneud hyn, gan ddechrau gyda chyngerdd gan Gôr ABC yng Nghapel Bethel, Aberystwyth nos Sul 16 Mawrth 2008 am 7.30pm. Byddaf hefyd yn gwneud raffl, ac ar hyn o bryd yn chwilio am wobrau ar ei chyfer. Felly, os oes gennych unrhyw beth i'w roi i'r raffl, byddaf yn ddiolchgar iawn! Mae gennyf hefyd safle we er mwyn codi arian, lle gall pobl roi nawdd o arian i'r achos (<http://www.justgiving.com/ceryshumphreys1>).

UNESCO. Mae yn warchodfa bywyd gwyllt ar gyfer adar y môr, ysgyfarnogod Patagonia, gwanacoid, morlewod a morloi eliffant y de. Ar ôl ymweld â'r safle yma, byddwn yn gyrru

Mae'r misoedd nesaf yn mynd i fod yn rhai prysur iawn, ond dwi'n edrych ymlaen yn fawr at fynd a gweld tipyn bach o'r Ariannin- a helpu eraill wrth gwrs!

4 ffordd o gysylltu a Mark

- ✓ **Cymorthfeydd Cyngor ar draws Ceredigion. Manylion o'n swyddfa ni ar 01970 615880**
- ✉ **Ysgrifennwch naill at Mark Williams AS, 32 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, SY23 2NF neu Mark Williams AS, Ty'r Cyffredin, Llundain, SW1A 0AA**
- ☎ **01970 615880 neu 0207 2198469**
- ✉ **williamsmf@parliament.uk**



Mark Williams AS

Yma i Helpu Chi Trwy Gydol Y Flwyddyn!

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Cynhaliwyd cyfarfod yn Nyffryn Castell, Ponterwyd nos Sadwrn, Tachwedd 24, i ddathlu hanner can mlynedd sefydlu Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion ar Fai 13, 1957. Ni ellir gwerthfawrogi'r achlysur heb yn gyntaf ystyried ei chefnidir fel un o'r Pum Sir, sydd yn cynnwys Adran Fynydd y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig. Arfon dorodd y garw ym 1945 trwy ymwrthod a defnyddio hyrddod anaddas y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig a hyrwyddwyd gan y Weinyddiaeth Amaeth, wrth ffurfio Cymdeithas Defaid Mynydd Arfon. Pierce Owen, Y Ffridd, Dyffryn Nantlle; Frank Griffith, Y Bryn, Caernarfon a'r Athro E J Roberts, Coleg y Gogledd fu ar flaen y gâd. Rhoddodd safiad E J Roberts ei gyfle i Gwynn Lloyd Williams i ddechrau ar ei daith arloesol o gofnodi'r ddiadell fynydd yn Abergwyngregyn, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Arfon. Dyma'r fesen a blannwyd ym 1948, a dyfodd yn dderwen erbyn 1987, pryd y gwerthwyd hyrddod cofnodedig gyntaf yn y wlad hon gan CAMDA yng Ngheirnioge Mawr, Pentrefoelas. Dyma'r ddiadell gnewyllog (nucleus flock) gyntaf i'w sefydlu yn y wlad hon o famogiaid dethol o'r Adran Fynydd yn Arfon, Dinbych a Meirion ym 1976. Enillodd Gwynn Williams Ddyfarniad George Hedley am ei gyfraniad i'r diwydiant ac yn sicr edmygedd a gwerthfawrogiad ei gyd-weithwyr yn yr Adran Fynydd am ei waith, yn fwy felly na chydabyddiaeth glae'r y sefydliad amaeth yn Llanelwedd.

Ym 1958, penodwyd I R Jenkins, Tyngrraig, Tal-y-bont yn Gadeirydd a W J Lewis, Rhos-goch, Capel Madog yn Ysgrifennydd Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion. Dechreuwyd archwilio a chofrestru diadelloedd yn ddiymdroi, yn ogystal â threfnu arwerthiant blynyddoedd yr hyrddod. Cychwynwyd ar y profion hyrddod sirol ym 1965 a phrofwyd pedwar o'r hyrddod blwydd gorau trwy eu hepil bob blwyddyn. Y trydydd



Rhes ôl: Dyfed Glanrafon, Rhodri Moelglomen, Glyn Frondeg, David Allt-goch, Alan Pen-banc, David Tŷ-hen Henllys, Rhydian Tynant, Siarl Tynddraenen, Dilwyn Tŷ-nant, John Trefaes, Geoff Ffosybleiddiaid, Tegwyn Rhos-goch

Ail res: Mair Tynddraenen, Bob Penywern, John Pen-cwm, Monica Moelglomen, Sue Pen-y-wern, Dilys Allt-goch, Menna Trefaes, Beryl Glanrafon, Dafydd a Delyth Ceiro, Eira Ffosybleiddiaid, Eirwen Pen-cwm, Ken Coedgruffydd, Eileen Fron-deg, Marion Tŷ-nant, Aldwyth Rhos-goch

Rhes flaen: Geraint Penpompren, Dafydd Penpompren (Trysorydd), Gareth Sŵn y Ffrwd (Ysgrifennydd), Enoc Tyn-y-graig (Cadeirydd, ac ŵyr i I R Jenkins, y Cadeirydd cyntaf), Gwyn Jones (gŵr gwadd) a Ann Jones, Llys Maelgwyn, Simon Moelglomen (Is-gadeirydd), Gwilym ac Ann Llety'r Bugail, Gomer Fferm y Bont ar y llawr: Llŷr Pen-banc, Dewi Tyn-y-graig, Garmon Tŷ-hen Henllys, John Pen-banc

Yn anffodus, nid oedd Glyn Vaughan, Rhiwarthen, y Llywydd yn gallu bod yno i ddathlu.

cam fu troi hyrddod profedig at famogiaid dethol mewn cynlluniau cydweithredol neu logi hyrddod o ddiadelloedd fel Glanmerin, Glaspwll a Chwm Cilan, Llanrhaeadr-y-Mochnant. Ym 1967, anfonwyd ŵyn hyrddod i'r prawf canolog ym Mangor. Bu ffald Penpompren, Tal-y-bont yn ganolfan i weithgareddau'r Gymdeithas am ddeugain mlynedd, trwy garedigrwydd teulu Tyngrraig. Yno byddai Ted Morgan, Perthog, Pen-y-Garn yn dethol yr hyrddod i'r profion ac yno y dychwelant i'w cneifio bob mis Mai. Cymdeithas fyw a gweithgar yw hi ac, er na chafwyd fawr o gefnogaeth o gyfeiriad Tregaron, ymaelododd nifer fechan yn ardal Ffair-rhos, dan ddylanwad William Owen, Tynddol. Collwyd rhai aelodau wrth iddynt droi at y defaid penfrith ond ers gweddill ffyddlon o fewn y gorlan heb laesu dwylo, ac er mai ychydig ydym erbyn hyn, daeth haul ar fryn. Enillwyd

Tarian Perthi gan hwrdd o'r Winllan, Tal-y-bont yn y prawf canolog a chyflawnodd Mrs Beryl Evans gamp unigryw dros y Sir trwy ennill Cwpan Coffa Pierce Owen am y ddiadell orau yn y Pum Sir. Hi hefyd sydd yn dal Tarian Rhos-goch am y ddiadell orau o fewn y Sir, gwobr a roddwyd gan y teulu i gofio W J Lewis. Datblygiad gobeithiol oedd sefydlu'r ddiadell ganolog ar ffurf CAMDA ym Mhwlpeiran, sef CAMP (Cymdeithas Adfer Mamogiaid Pumlumon) gan yr aelodau.

Enoc Jenkins, Tyngrraig oedd y cadeirydd yn y cyfarfod dathlu ac ef a gyflwynodd y gŵr gwadd, Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, Pen-y-Garn. Bu ef yn rhannol gyfrifol am sefydlu'r Gymdeithas ac yn cydweithio law yn llaw gyda'r ddaus ysgrifennydd, W J Lewis ac Ieuan Morgan, Glanfrêd am chwe mlynedd ar hugain, cyn ymddeol ym 1984, fel cynghorwr yn ucheldir

Ceredigion ac ar ffermio mynydd dros Gymru. Gareth Evans, Sŵn y Ffrwd, Bont-goch yw'r Ysgrifennydd gweithgar ers tro byd bellach, tra ni fu i Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, Tal-y-bont laesu dwylo ar ôl cyfnod hir fel Trysorydd. Nid oedd Glyn Vaughan, Rhiwarthen, y Llywydd ac un o'r hoelion wyth, yn gallu bod yno i ddathlu yn anffodus a gwelwyd ei eisiau. Ceisiodd y gŵr gwadd roddi'r cefndir hanesyddol i'r sefydlu, cyn nodi rhai cerrig milltir ar y daith o 1957-2007. Cymdeithas Gymraeg a gwerinol yw hi, heb sawr brenhinol o'i chwmpas. Sarnu'r iaith a wneir heddiw, os na achubir hi gan wladwyr yn arddel yr iaith lafar gyfoethog a phriod-ddulliau traddodiadol. Diolchodd i'r aelodau am eu cydweithrediad i wella tir a stoc, ac am fod yn gymaint cefn iddo mewn hindda a drycin.

Gwyn Jones

Dechreuad da iawn i 2008 i'r Gwartheg Duon Cymreig yn Sioe ac Arwerthiant Y Gaeaf

Dechreuodd y flwyddyn newydd 2008 yn wych i Gymdeithas y Gwartheg Duon yn eu Sioe ac Arwerthiant yn Farmers Marts, Dolgellau ar Ionawr 15fed 2008, lle roedd diddordeb arbennig iawn yn y gwartheg duon pedigri Cymreig.

Roedd ffermwyr a phrynwyr wedi dod mor bell â Dumfrieshire yn yr Alban, Pickering o Ogledd Swydd Efrog a Dyfnaint a Chernywl i weld y 79 o Wartheg a Teirw Gwartheg Duon Cymreig oedd yn cael eu cynnig.

Dywedodd Andrew James, Prif Weithredwr gweithgar y Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig, 'Ar ôl blwyddyn wael iawn i'r diwydiant amaeth yn 2007 mae'r flwyddyn yma wedi dechrau yn arbennig o dda i ni fel Gymdeithas.'

Y pris uchaf ar y dydd oedd Pencampwr y teirw, Graig Goch Berwyn y 59fed yn pwysu 800 cilo a werthwyd am 12,200 gini gan Emyr Jones, Graig Goch, Nebo, Llanrwst. Roedd mam y tarw yma Graig Goch Marian y 30ain yn gastell o fuwch ac enillodd deitl buwch y flwyddyn yn Sioe Frenhinol Cymru yn 1995 a 1996. Tad y tarw yma oedd Brysgaga Erddyn 42.

Prynwyd y tarw gan Mrs Gwenfair Jones a'i meibion, Hafod Yr Esgob Isaf, Y Bala. Dywedodd



Luniau: Avid Parry Jones

Emyr Jones 'Rwyn falch iawn o gael pris teg iawn am yr holl waith a aeth mewn i baratoi'r tarw yma i'r Arwerthiant ac os nad ydych yn derbyn prisiau fel hyn am y teirw o'r safon yma nid oes gwerth yn eu magu'. Dywedodd Mrs Gwenfair Jones, 'Rydym wedi bod yn edrych am y tarw iawn ers sawl blwyddyn bellach ac mae y meibion wedi dotio ar y tarw arbennig yma.'

Mae Buches Gwartheg Duon

Hafod yr Esgob yn enwog iawn ac wedi ennill Pencampwr y buchod yn Nolgellau ym mis Tachwedd 2007 gan dderbyn pris o 2075 gini ar gyfartaledd.

Is bencampwr y teirw yn y Sioe eleni oedd y tarw ifanc, 22 mis oed Brysgaga Seraff 35 yn pwysu 970 cilo wedi ei fagu gan Rowland Rees, Brysgaga, Bow Street. Gwerthwyd Brysgaga Seraff am 9500 gini i Islwyn Owen, Partneriaeth Cefn

Bodig, Llanycil, Y Bala. Dywedodd Rowland Rees 'Pris teg mae ffermwyr eisiau am eu cynnyrch er mwyn sicrhau fod ffermwyr yma yn y tymor hir i gynhyrchu bwyd i'r wlad ac roedd yn bleser gennyf weld y gefnogaeth yma heddiw i'n Sioe a'r Arwerthiant yma. Roedd Brysgaga Seraff yn darw da iawn ac yn 30 cilo yn brin o dunnell ac fe werthodd yn dda iawn'

Yn arwain y gwerthiant yn yr heffrod oedd Tynygraig Nerys 20fed a gwerthwyd yr heffer gyflo organic yma gan Y Mri EW ac M Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont, Ceredigion. Gwerthwyd hi am 1320 gini ac fe'i prynwyd gan Mr Lloyd Roberts, Waterloo Service Station, Penrefail, Cross Road, Abergele. Dyma'r tro cyntaf i Mr Lloyd Roberts brynu gwartheg duon Cymreig ac fe brynodd 17 i gyd yn yr Arwerthiant yma.

Noddwyd y Sioe ar Arwerthiant gan Tithebar, d/o Richard Lawrence, Rheolwr Cymru. Derbyniodd y gwerthwr ar prynwr o'r Tarw a wnaeth y pris uchaf voucher o £25 gan Tithebar.

Roedd yn ddiwrnod arbenig iawn yn y Sioe ar Arwerthiant yma yn Nolgellau, gyda torf o bobol yno i sicrhau Arwerthiant arbennig iawn ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn. Gobeithiwn fod hwn yn arwydd o wellhad yn y diwydiant Amaeth i'r dyfodol



COLOFN YR URDD

Wel, dyma gychwyn ar flwyddyn newydd o weithgareddau'r Urdd. I chi sy'n dal yn meddwl mai'r Eisteddfod yw prif ffocws y gweithgareddau, wel, peidiwch â chael eich twyllo! Mae'r Urdd eisoes wedi gweld nifer o blant ifanc yr ardal yn arddangos sgiliau corfforol arbennig ar y maes pêl-droed. Pwy a wŷr, efallai bod olynnydd i Craig Bellamy yn ein plith ni!

Dyma ganlyniadau Cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob-ochr yr Ysgolion Cynradd:

Rownd derfynol:

Pen-llwyn yn ennill yn erbyn Llangwryfon (3 v 0).

Llongyfarchiadau i'r buddugol a diolch i'r holl gystadlewyr, yr athrawon, yr hyfforddwyr a'r rhieni. Diolch hefyd i Ganolfan Hamdden Aberystwyth.

Pêl-rwyd Cynradd Cylch Aberystwyth

Llongyfarchiadau i Ysgol Llanilar am ennill y gystadleuaeth, ar waetha'r glaw trwm. Pob lwc eto wrth gynrychioli'r cylch!

Fforwm Ieuentid yr Urdd,

Ceredigion - Llongyfarchiadau i'r canlynol o Ysgol Penweddig am dderbyn eu rôl newydd:

Is-gadeirydd: Steffan Nutting;
Ysgrifennydd: Elin Huxtable;
aelodau eraill: Tomos Hywel a Rhys Jones.

Tâl Aelodaeth: i'r ieuentid hynny sydd yn dal heb ymaelodi am 2007-08, cofiwch fod y tâl aelodaeth wedi codi i £6. Ewch amdani, Gardis, mae'n werth pob ceiniog! Rhowch Gynnig Arni! Os ydych yn un am roi cynnig ar unrhyw beth, heb boeni am wneud ffŵl ohonoch chi eich hun, dyma'r weithgaredd i chi! Eleni aeth tri thim o GYTS Penweddig i gystadlu i'r Marine, gan lwyddo i gael digon o hwyl a sbri a dod yn 1af ac yn 3ydd. Cyfle da i adeiladu sgiliau tîm a chwedd â ieuentid o aelwydydd a Chlybiau Ffermwyr Ifanc eraill y sir.

CELF A CHREFFT – os ydych yn bwriadu cystadlu, cofiwch lanw'r cerdyn priodol (ar gael o'ch ysgol/adran) ac ewch â'ch gwaith i Wersyll Llangrannog erbyn 4.30 ar 20 Chwefror!

Tymor yr Eisteddfodau - Dyma ni ar fin dechrau cylch arall o Eisteddfodau'r Urdd ac felly dyma'r dyddiadau pwysig i'ch calendr. Cofiwch, gystadlewyr, eich bod chi wedi ymaelodi a llanw ffurflen gystadlu a'i chyflwyno cyn 7 Chwefror.

EISTEDDFODAU CYLCH ABERYSTWYTH:

Eisteddfod Ddawns – Cynradd ac Uwchradd: Dydd Mawrth, 26 Chwefror, Canolfan y Celfyddydau am 4.00

Eisteddfod Offerynnol (Cynradd): Dydd Mercher, 27 Chwefror, Ysgol Gynradd Comins-coch - 1.30

Eisteddfod Uwchradd: Dydd Iau, 28 Chwefror, Neuadd Ysgol Gyfun Penweddig am 1.00

Rhagbrofion Cynradd: Dydd Iau, 28 Chwefror, Ysgol Gymraeg, Plas-crug a Neuadd Aml-Bwrpas Penweddig am 9.00

Eisteddfod Gylch Cynradd: Dydd Gwener, 29 Chwefror, Neuadd Ysgol Gyfun Pen-glais am 4.00

EISTEDDFODAU RHANBARTH CEREDIGION:

Eisteddfod Ddawns – Dydd Mercher, 5 Mawrth, Canolfan y Celfyddydau am 1.30 (Uwchradd 3.45)

Eisteddfod Aelwydydd – Dydd Mercher, 5 Mawrth, Canolfan y Celfyddydau am 6.15

Eisteddfod Gynradd: Dydd Sadwrn, 8 Mawrth, Pafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

Eisteddfod Uwchradd: Dydd Gwener, 14 Mawrth, Ysgol Gyfun Pen-glais am 1.00 (a 4.00)
Dewch i gefnogi!

Pwyllgorau Apêl Ceredigion 2010
Melindwr – 20fed o Chwefror
Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30

Tirymynach – 19eg o Chwefror
– Ffestri Noddfa, Bow Street
Trefeurig – 3ydd o Fawrth, Neuadd Penrhyn-coch

Dôl-y-bont, Y Borth a Llandre
-Cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem,
Llandre Nos Fercher, Mawrth
12fed am 7.30

DIGWYDDIADAU

Pwyllgor Apêl Tirymynach
Cyngerdd "Talenatu lleol" - 19.03.08
7.00 y.h. Neuadd Rhydyppennau Bow
Street Dewch yn llu i gefnogi
Pwyllgor Dawns

01.03.08 - Bore Coffi Neuadd
Waunfawr 9.00 – 12.30

Cawl â Chan – Neuadd Talybont
22.02.08 7.00 y.h.

Pwyllgor Apêl Tal-y-bont a
Cheulanmaesmawr.

DIOLCH yw'r un gair bach sydd ar ôl. Heb os nac oni bai, mae Ceredigion yn ffodus iawn o gael Anwen Eleri yn llywio'r llong. Diolch o galon iddi am ymrwymo i roi cyfleoedd i ieuentid y sir.

Adolygiad

E. Olwen Jones

O ris i ris: caneuon poblogaidd i blant cynradd
Y Lolfa 55t £6.95


Dyma gyfle arall i fwynhau cyfansoddiadau cerddorol E Olwen Jones yn y casgliad O Ris i Ris gan wasg y Lolfa.

Mae Olwen Jones yn dweud yn ei chyflwyniad ei bod wedi ceisio pontio ystod oedran o'r babanod i'r iau gyda chaneuon syml ar gyfer plant bach, a chaneuon deulais ar gyfer y plant hŷn o dan themâu amrywiol.

Gan fod cymaint o themâu amrywiol ar gael yn y gyfrol, ceir sawl cyfle i ddehongli'r caneuon mewn ffyrdd dramatig a chreadigol. Mae'n dechrau gyda "Siôn" sy'n "cuddio yn y lorri" am ei fod wedi pwdu, a gallaf ddychmygu dosbarth o blant yn mwynhau dynwared teimladau a symudiadau Siôn.

Gellir dehongli sawl cân arall hefyd, gan rasio i lawr y mynydd gyda'r "Sgiwr" a dychryn yn y tywyllwch pan ddifoddir y golau yn "Hen Arfer". Mae'r "Ffatri" yn rhoi cyfle gwych i bawb symud "rownd a rownd, 'nôl a 'mlaen" a neidio i fyny ac i lawr fel peiriannau swnllyd!"

Dywed Olwen Jones ei bod wedi ceisio cyfoethogi iaith plant



drwy gynnwys ymadroddion megis "heb siw na miw", "cadw-mi-gei", "a'i ben yn ei blu". Rwy'n siŵr y bydd plant yn cofio'r ymadroddion ac yn gallu eu defnyddio mewn sgwrs, ar ôl canu'r caneuon dro ar ôl tro.

Tua diwedd y gyfrol cawn ddeuawdau am yr "Eira" a "Melinau Gwynt" a chyfle i ddathlu Calan Mai yn "Yr Dyl".

Mae rhywbeth yma ar gyfer pawb yn y dosbarthiadau cynradd, felly mwynhewch y casgliad a'r canu!

Eirlys Eckley

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Apêl Plwyf Trefeurig Urdd 2010

Cynhelir dosbarthiadau ymarfer dawnio i fwisg ar nos Fercher rhwng 6.30-7.30 yn Neuadd Ysgol Penrhyn-coch £3 y sesiwn – er budd cronfa leol Eisteddfod yr Urdd 2010. Am fwy o wybodaeth cysyllter gydag Anne Morris 820 425

cardiCWSTIG



Cynhelir noson **cardiCWSTIG** yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth ar nos Wener yr 22ain o Chwefror yng nghwmni **Bob Delyn a'r Ebillion** a **Linda Griffiths**. Tâl mynediad yn **£5**, a'r noson i gychwyn am **8yh**. Mae'n noson o adloniant ysgafn fydd yn apelio at bawb - Cymry Cymraeg a hefyd dysgwyr. Mae'n un o gyfres o nosweithiau a drefnir gan CERED gyda chefnogaeth Cynnal Ceredigion a Chanolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru dros y misoedd nesaf. Am fanylion pellach ynglŷn â'r nosweithiau, cysylltwch â **Ffion Medi, Swyddog Maes CERED (Menter Iaith Ceredigion)** ar **01545 572 356**.

Llyfrau â chysylltiad lleol


Nia Elin
Doethineb Mam
 Dref Wen
 £4.99

Nid yw babi newydd yn dod gyda llawlyfr, ond o'r diwedd mae llyfr newydd Cymraeg Doethineb Mam gan Nia Elin, (Tir nan Nog, Cwmbwyno gynt) yn barod i helpu mamau newydd drwy'r amser mwyaf hapus, blinedig a gwerthfawr o'u bywydau!

Wedi ei gyhoeddi gan y Dref Wen, mae Doethineb Mam yn cynorthwyo'r fam newydd gyda'r pryderon hynny trwy gynnig nifer o awgrymiadau ymarferol. Mae pob pennod yn canolbwyntio ar ryw dasg gyffredin neu ddigwyddiad ym mywyd plentyn bach. O'r dymi i'r dannedd, o'r clytiau i'r tŷ bach ac o'r bwyd cyntaf i frodyr a chworydd, mae'r llyfr bach defnyddiol hwn yn cynnig pob math o gymorth wrth wynebu'r profiad cyffrous o fagu babi newydd.

Gan gynnwys penodau pwysig ar agweddau gwahanol, cynnig cysur a chymorth a syniadau da, mae'r llyfryn, sy'n llawn darluniau hyfryd ac yn seis poded sy'n hawdd i daflu mewn i'r bag babi, yn anrheg berffaith i fam newydd neu i rywun sy'n fam yn barod ond angen cysur am agwedd benodol o fagwraeth.

Bydd yr awdures Nia Elin yn fwyaf cyfarwydd i ddarllenwyr fel un o gyn-gyflwynwyr y rhaglen Uned 5. Yn fwy diweddar mae Nia, sy'n byw erbyn hyn yng



Nghaerdydd, wedi bod yn gweithio ar Planed Plant, yn cyfieithu ac yn addasu sgrïptiau, yn lleisio cartŵnau ac ar y funud yn gweithio fel is-gynhyrchu'r rhaglen blant Mosgito i'r BBC. A chanddi ddau o blant, mae hi hefyd yn brysur fel arweinydd grŵp rhieni a phlant bach Cylch Ti a Fi sy'n cynnig cyfleoedd i rieni a gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig.

Dywedodd Nia, "Pan oeddwn i yn disgwyl plant, doedd dim deunydd darllen yn yr iaith Gymraeg ar gael i famau newydd. Roedd digon o lyfrau a chylchgronau Saesneg a dyma beth sbardunodd fi i feddwl am ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg. Dwi wedi bod yn casglu gwybodaeth a chofnodi manylion ers tipyn a cyn i fi sylweddoli, dyma oedd sylfaen y llyfr.

"Mae bod yn fam newydd yn gyfnod prysur iawn ac felly dwi wedi ystyried hyn wrth ysgrifennu'r llyfr. Nid oes rhaid i'r llyfr gael ei ddarllen trwyddo ar un eisteddiad ond yn hytrach rhywbeth i'w gadw wrth law a'i agor mewn sefyllfa arbennig wrth i rieni ymgodymu â magu plant bach yw e.

"Mae llawer o fy ffrindiau wedi dweud y byddent yn dwli cael rhywbeth fel hyn. Ar ddiwedd y dydd, mae rhannu profiadau ag eraill yn help mawr wrth fagu plant a gobeithio bydd y llyfr hwn yn gysur ac yn help i famau newydd."


Stephen Jones: O Clermont i Nantes
 Y Lolfa
 Pris: £8.95

Wedi'r chwiban olaf gael ei chwythu ac wythdeg munud o chwarae caled ddod i ben, mae Stephen Jones yn gorfod wynebu beirniadaeth gan newyddiadurwyr, sylwebwyr a chefnogwyr am safon ei chwarae. Ond eleni mae wedi wynebu'r beirniad anoddaf a chaletaf un, sef ef ei hun wrth iddo gynnig golwg ar fywyd chwaraewr rygbi proffesiynol yn ei lyfr newydd a gyhoeddir gan wasg Y Lolfa, Stephen Jones: o Clermont i Nantes.

Yn y llyfr hwn mae Stephen Jones - fu'n byw ym Mhenrhyn-coch pan yn blentyn - yn cofnodi blwyddyn o chwarae wedi iddo ddechreio yn ôl i dre'r sosban o Clermont yn Ffrainc gan ailymuno â thîm y Sgarlets. Ar ffurf dyddiadur, mae'n bwrw golwg dros gemau Cynghrair Magners, Cwpan Heineken, gemau Rhyngwladol yr Hydref, pencampwriaeth y Chwe Gwlad a Chwpan y Byd, gan roi sylwebaeth lawn ar ei berfformiad, ei anafiadau ac ofnau wrth iddo wynebu blwyddyn anoddaf ei yrfa.

Mae'n trafod ei lawenhad o gael dychwelyd i dîm y Sgarlets a'r boddhad o wneud yn dda yn y Cwpan Heineken, y modd iddo gael ei feirniadu yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, siom fawr Cwpan y Byd, y 'frwydr' rhyngddo ef a James Hook am y crys rhif 10, ac ymadawiad Gareth Jenkins. Ond yma hefyd mae'n bwrw ei fol ar bryderon ei anafiadau, pwysau'r dasg o fod yn Gapten ar ei wlad, a'i ofnau wrth gamu ar y maes chwarae yn ogystal â'r gwir tu ôl i ddigwyddiadau'r 'noson o yfed' yna yn yr Alban yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Ceir hefyd gipolwg tu ôl i'r llen, y gwir tu ôl i benawdau praff y papurau newydd, y tynnu coes o fewn y garfan a'i hoffter am fwyd, caffis a boules wedi ei gyfnod yn Ffrainc. Mae'n trafod ei fywyd y tu hwnt i'r cae rygbi wrth iddo baratoi i agor tŷ bwyta ar y cyd a'i gyd-chwaraewr Dwayne Peel a'i obeithion am y dyfodol. Ceir straeon sy'n egluro sut y daeth i gyfarfod a'r paffiwr Sugar Ray



Leonard mewn maes awyr, a sut y daeth cyfeillgarwch ac Alistair Campbell yn ddefnyddiol iddo wedi siom pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

"Ers i fi ddod 'nôl i Lanelli ar ôl 'y nghyfnod gyda Clermont fe fu'n flwyddyn 'lan a lawr' ar sawl cyfri. A dweud y gwir ro'n i wedi anghofio faint o sialens oedd bod yn wharaewr dosbarth cyntaf yma yng Nghymru, a chymen y mae rhywun o dan y chwyddwydr gan y wasg a'r cyfryngau," meddai Stephen.

Yn ail yn unig i Neil Jenkins fel prif sgoriwr Cymru, mae Stephen Jones yn arwr i gannoedd o ddilynwyr rygbi ar hyd a lled y wlad. A hithau wedi bod yn flwyddyn a hanner iddo wrth ddechreio yn ôl i'w hen glwb, dioddef sawl anaf cas a chyrraedd pen llanw pedair blynedd o baratoi ar gyfer cystadleuaeth Cwpan y Byd, mae'r llyfr difyr hwn yn cynnig golwg ar y dyn tu ôl i gyrs rhif 10 y Sgarlets a Chymru.



YSGOL CRAIG-YR-WYLFA

Plant Newydd

Braf oedd cael croesawu'r plant a'r staff nol i'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Cafwyd cwmni pedwar plentyn newydd yn y dosbarth derbyn; croeso i Morwen, Kelsey, Mackenzie a Courtney a gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r tymor yma'n un byr iawn gyda ond 10 wythnos cyn gwyliau'r Pasg.

Codi Arian

Bu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn brysur iawn yn casglu nwyddau ar gyfer yr hamperi cyn y Nadolig. Buont hefyd yn gwerthu tocynnau raffl a codwyd dros £750 i'r ysgol. Diolch o galon i'r rhai hynny a rhoddodd eitemau i'r hamperi ac i bawb a brynodd tocyn er mwyn cefnogi'r ysgol. Mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio i brynu cyfrifiaduron newydd ac i greu dosbarth awyr agored tu ol i'r ysgol.

Cyfrifiaduron Newydd

Mae'r ysgol wedi cael 10 cyfrifiadur newydd ar ddechrau'r tymor. Archebwyd 5 oddi-wrth Prifysgol Aberystwyth a derbyniwyd 5 yn rhodd gan I.G.E.R. Diolch o galon i Wayne Cullen (tad Tuen) am drefnu hyn gyda IGER ac am ddod a'r holl offer draw i'r ysgol.



Gwobr Campau'r Ddraig - Dan, Leo a Sam yn derbyn y wobr

Chwaraeon

Bu'r plant yn chwarae pel-droed a pel-rhwyd yn erbyn Padarn Sant. Colli fu hanes y tim pel-rhwyd o 5-1 ond braf oedd gweld y bechgyn yn ennill o 1-0. Aeth criw o'r ysgol i gystadlu yng ngala nofio ysgolion cylch Aberystwyth. Llongyfarchiadau i Isaac, Beth, Simone, Dan, Erin, Jonah a 2 tim cyfnewid y merched. Bydd y gala terfynol yn cymeryd lle ar yr 21ain o Chwefror ym Mhlasrug.

Staffio

Mae'n braf cael croesawu 3 cynorthwydd dosbarth newydd i'r ysgol. Bydd Amanda Jones a Cath Reeves yn gweithio gyda blwyddyn 3 a 4 ac Emma Davies yn gweithio yn nosbarth y babanod. Croeso hefyd i Ceri Jones sydd yma fel myfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth fel rhan o'r cwrs ymarfer dysgu. Bydd Ceri yn dysgu blwyddyn 5 a 6.

Kingswood

Aeth o 9 o blant blwyddyn 4 am dair noson i Ganolfan Kingswood ger Telford. Braf oedd cael ymuno gyda plant o ysgolion Comins-Coch, Penrhyn-coch a Llanilar. Mae'r ganolfan yn rhoi'r cyfle i'r plant ddysgu sgiliau cyfrifiadur a gwneud gweithgareddau awyr agored.



Morwen, Kelsey, Courtney a Mckenzie - y plant bach newydd

Gwobr Arbennig

Braf yw cael llongyfarch yr ysgol ar ennill gwobr arbennig oddi-wrth Campau'r Ddraig. Rydym wedi bod yn cynnal clybiau ar ol ysgol ers sawl blwyddyn ac derbyniodd yr ysgol gwobr arian gan Bryn Evans yn ddiweddar. Ysgol Craig yr Wylfa yw'r ysgol gyntaf i ennill y wobr yng Ngheredigion.

Holuch Paul am bwis ar
paul@yloffa.com

yLolfa
Agraffwyr

TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Y Radd Allanol Trwy Gyfrwng y Gymraeg

- Cwrs rhan amser
- Hyblyg - chi sy'n dewis cyflymder eich dysgu
- Darlithiau ar y Sadwrn yn Aberystwyth
- Rhai modiwlau trwy e-ddysgu
- Adeiladu at radd BA
- Dewis o bynciau:
 - Sgiliau Astudio - dysgu sut i ddysgu
 - Cymraeg
 - Hanes Cymru
 - Llydaweg a Gwyddeleg
 - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
 - Menter a Busnes
 - Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Pwy all ddilyn y Radd Allanol?


- Unrhywun â diddordeb mewn dysgu ar lefel prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Myfyrwyr sydd â dyfalbarhad, brwdfrydedd ac ymroddiad

Rhagor o wybodaeth

Cydgysylltydd y Radd Allanol,
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Prifysgol Cymru Aberystwyth,
Aberystwyth SY23 2AX

graddallanol@aber.ac.uk
01970-621678

<http://www.aber.ac.uk/sell/courses/welsh/extdgree/index-cymraeg.html>



YSGOL RHYDYPENNAU

Ymweliadau

Yn ystod y flwyddyn newydd, fe ddychwelodd Rhydian Phillips, mab Alun a Louisa, i Gymru o Awstralia. Ar y 16eg o Ionawr, fe ddaeth Rhydian, ei gariad Megan a Louisa i flwyddyn 5 i adrodd ychydig o hanes Awstralia i'r plant. Dyma gofnod Tomos Gillison o'r ymweliad.

Ymweliad o Awstralia

Ar ddydd Mercher y 16eg o Ionawr daeth ymwelydd arbennig o'r enw Megan Dubois o Cleve, De Awstralia i'n gweld ni ym Mlwyddyn 5.

Roeddem ni wedi gofyn cwestiynau iddi hi am ei gwaith a'i chartref. Roedd hi'n gweithio i gwmni oedd yn gwneud papur newydd bach yn Cleve. Roedd hi wedi dweud rhai geiriau mae pobl Awstralia yn ei ddefnyddio e.e.chips=creision, hot chips=chips.

Roedd o'n ddiwrnod diddorol iawn! Thomas Gillison

Sain Ffagan

Ar y 24ain o Ionawr fe aeth blwyddyn 3 a 4 i Gaerdydd i ymweld â'r adeiladau enwog yn Sain Ffagan. Ein thema ni y tymor hwn yw 'Cartrefi;' felly roedd yr ymweliad i'r amgueddfa yn le delfrydol i'r plant arsylwi ar yr hen gartrefi hanesyddol. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig o dda.

Leigh Denyer

Ar y 30ain o Ionawr, fe ddaeth Leigh Denyer i'r ysgol fel rhan o wasanaeth addysg menter y Comisiwn Coedwigaeth. Cyflwynodd amryw o wybodaeth pwysig i'r plant ar goed ac anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig. Fe aeth ymlaen i drefnu nifer o weithgareddau difyr i holl blant yr ysgol ar agweddau o goedwigaeth.

Yn ystod yr un diwrnod bu blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i weld tîm rygbi'r Sgarlets yn ymarfer yng nghlwb Rygbi Aberystwyth. Cafodd y plant lofnod amryw o'r chwaraewyr ac ar ddiwedd y sesiwn cafodd pob plentyn becyn unigol yn cynnwys tocyn i gêm y Sgarlets

yn erbyn Glasgow.

Ar y 6ed o Chwefror fe aeth y Dosbarth Derbyn i'r goedwig yn Nhregerddan. Roeddynt yn gobeithio gweld bywyd gwyllt yr ardal yn byw yn eu cynefinoedd naturiol. Trwy lwc, roedd hi'n ddiwrnod braf iawn i fynd am dro i'r goedwig ac fe gafodd pawb amser da ond blinedig braidd.

Tra bo'r dosbarth derbyn yn mwynhau'r goedwig, fe ddaeth Julie Bromilow o Ganolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth i flwyddyn 6. Bu hi yno drwy'r dydd yn codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd yr 'ôl droed carbon' ac o broblemau amgylcheddol ein byd cyfoes ni. Hoffai'r ysgol ddiolch i Julie am ei chyflwyniadau a'i gweithgareddau difyr.

Chwaraeon

Bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu yn ddiweddar ym mhencampwriaeth Yr Urdd, cylch Aberystwyth yn y ganolfan hamdden ym Mhlas-crug. Enillodd y merched sawl gêm ond colodd y tîm yn y rownd gyn-derfynol. Perfformiad ardderchog.

Cynhaliwyd gala nofio cylch Aberystwyth i'r ysgolion mawr ar y 4ydd o Chwefror. Oherwydd perfformiadau gwych nifer helaeth o blant blwyddyn 3 i flwyddyn 6, mi fyddant nawr yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol ar y 21ain o Chwefror.

Diwrnod ar gyfer newid

Ar y 1af o Chwefror, cynhaliwyd 'Diwrnod ar Gyfer Newid' er mwyn codi arian i Unicef. Fe ddaeth y plant i'r ysgol mewn dillad dewisol ac yn sgîl hyn, codwyd £100.00 i wlad Gambia yng nghyfarndir Affrica.

Cwpan Coffa

Mae nifer o ddarlennwyr 'Y Tincer' wedi cysylltu â'r ysgol yn ddiweddar yn sgîl gwerthiant ein Cwpan Coffa. Yn anffodus, nid yw'r ysgol yn derbyn rhagor o archebion. Felly, os am dderbyn ein Cwpan Coffa, cysylltwch â Malcolm yng nghrochendy Felin-gwm ar 01267290489.



Plant blwyddyn 5 gyda Megan Dubois



Ymweliad Leigh Denyer i'r ysgol

YSGOL PEN-LLWYN



Y plant fydd yn cynrychioli Ysgol Pen-llwyn yn y Gala nofio

YSGOL PENRHYN-COCH

Kingswood

Teithiodd criw o ddisgyblion o flynyddoedd 4 a 5 i Ganolfan Kingswood yn Swydd Stafford. Bu'r disgyblion yn mwynhau profiadau Antur ac Awyr Agored a chafwyd llawer iawn o hwyl. Tra yno, buont yn dringo, abseilio, cyflawni tasgau ar y cyfrifiaduron ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fim. Cafwyd llawer iawn o hwyl a phawb yn cyrraedd yn ôl wedi blino'n llwyr.

Pêl-rwyd

Bu'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Chwaraewyd nifer o gêmiau gan ennill, colli a chael gêmiau cyfartal. Yn anffodus ni lwyddwyd i fynd ymlaen i'r rownd derfynol ond cafwyd llawer o hwyl a mwynhad.

Ymweliadau

Cafwyd ymweliad yn ddiweddar gan athrawon o Ysgol Morfa Rhianedd, Llandudno. Treuliwyd amser yn yr ysgol yn gwyllo gwersi yn seiliedig ar weithgareddau

"Dewch i Feddwl / ACTS." Cafwyd enghreifftiau o wersi yng nghyfnod allweddol 1 a 2. Gobeithir trefnu ymweliad tebyg i staff yr ysgol yn ôl i Ysgol Morfa Rhianedd

Gala Nofio

Cynhaliwyd gala nofio ysgolion bach yr ardal yn ddiweddar. Bu nifer dda iawn o ddisgyblion yn nofio a llwyddodd llawer i ennill drwedd i'r gala derfynol a gynhelir cyn ddiwedd y mis. Bydd enillwyr gala'r ysgolion mwyaf yn nofio yn eu herbyn. Pob dymuniad da iddynt yn y rond derfynol.

Crempogau

Dathlwyd diwrnod crempog yn yr ysgol eleni eto. Bu'r holl ddsbarthiadau wrthi yn coginio. Cafwyd nifer o wahanol fathau o grempogau a bu rhai yn eu llenwi gyda gwahanol ddanteithion. Brafoedd gweld pob un wrthi yn mwynhau ac yn cael hwyl. Llwyddodd un dosbarth i daflu crempogau. Er yr holl hwyl, dysgwyd am hanes ac arwyddocad dydd Mawrth ynyd i'r disgyblion.



Gala Nofio

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn y Gala Nofio yn Aberystwyth. Dyma'r rhai fydd yn mynd ymlaen i'r Gala Nofio Terfynol ar ddydd Iau 21ain Chwefror – Tomos Watson, Rhodri Jones, Daniel Benthall, Shaun Dryburgh, Oliver Hershall, Rhian James, Manon Davies, Jo Jones a Iestyn Watson. Pob lwc chi i gyd.

Ymweliad Arad Goch

Cafodd Dosbarth 1 fore penigamp yng nghwmni plant ysgolion, Mynach, Syr John Rhys a Chapel Seion, yn gwyllo cyflwyniad gan Gwmni Drama Arad Goch. Pedair o storïau chwedlenol oedd testun cyflwyniad Catherine Aaron, un o actorion y cwmni ac fe fwynhaodd y plant y storïau yn fawr iawn.

Dosbarth Un

Ar ddydd Mawrth Ynyd bu disgyblion y cyfnod sylfaen yn dysgu am y Grawys a'r rhesymau dros gynnal diwrnod crempog. Cafodd pawb hwyl wrth goginio crempogau a mwy o hwyl fyth wrth eu bwyta.



Dosbarth 2 Ysgol Pen-llwyn gyda Mari Turner o Arad Goch



Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r ferch yn sgïo – bu'r postmon druan yn brysur yn dod â'ch gwaith i mi! Dyma pwy fu wrthi: **Shaun** Wyn Jones, Bronallt, Llandre; **Rhiannon** Tomkinson, 13 Cae'r Odyn, Bow Street; **Luke** a **Jade** Hutton, Tŷ Ni, Y Borth; **Alison** Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor; **Ffion** Powell, 27 Maes Ceiro, Bow Street; **James** Albrighton, 28 Maes Ceiro, Bow Street; **Leah** Beswick, 68 Bryncastell, Bow Street; **Tomos** a **Hannah** Mair Watkin, Blaen Waun, Y Borth; **Glesni** a **Teleri** Morgan, Ger-y-nant, Dolau; **Saran** Dafydd, 13 Maes y Garn, Bow Street; **Laura** Jones-Williams, Miramar, Goginan. Ni ddaeth yr un llun o Benrhyn-coch y mis hwn; dewch plant Penrhyn - gobeithio caf rai o'ch lluniau y tro nesaf!

Yr enillydd y tro hwn yw **Alison Keegan**, Capel Bangor. Da iawn ti Alison. Hoffais y menyg gwyrdd!


A wyddoch chi mai **Pencampwriaeth y Chwe Gwlad** yw'r bencampwriaeth rygbi hynaf yn y byd? Cynhaliwyd y cyntaf ym 1882, pryd y chwaraeodd tîm rygbi Lloegr yn erbyn Cymru yn Abertawe, a'n curo. Pedair gwlad oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y blynyddoedd cyntaf, sef Lloegr, Cymru, Yr Alban a'r Iwerddon, ond nid oedd fawr o drefn ar y Bencampwriaeth. Byddai'r dorf yn aml yn rhuthro ar y cae, gan fygwth y dyfarnwr druan! Ymunodd Ffrainc â'r Bencampwriaeth yn 1910, ond rhwystrwyd y tîm rhag chwarae yn y 1930au am i rywun ddarganfod eu bod yn cario cylllyll! Lloegr enillodd y flwyddyn honno.

Bu toriad yn y Bencampwriaeth rhwng 1914 a 1920 oherwydd y Rhyfel Byd

Gobeithir cael llun Alison ar gyfer y rhifyn nesaf

Cyntaf, ac enillodd Lloegr nifer o'r gêmiau ar ôl hynny, gan gynnwys pump *Grand Slam*. Y 1970au oedd oes aur tîm Cymru, gan ennill tri *Grand Slam* ac un Goron Driphlyg. Enillodd Yr Alban ei *Grand Slam* cyntaf am 59 mlynedd ym 1984. Yr unig *Grand Slam* i Iwerddon ei ennill oedd yn 1948, ac enillodd Ffrainc y *Grand Slam* ym 1968. Lloegr enillodd y wobwr honno yn 1980, wedi bwllch o 23 mlynedd. Cyflwynwyd y cwpan sy'n dal i gael ei ddefnyddio, ym 1993 – a wyddoch chi fod 200 owns o arian pur yn y cwpan hwnnw? Ymunodd yr Eidal â'r bencampwriaeth yn 2000, gan guro'r Alban. Mae'n siwr bod nifer ohonoch chi'n cofio Cymru'n ennill y *Grand Slam* yn 2005, wedi bwllch o 27 mlynedd! Lloegr sydd wedi ennill y rhan fwy o wobrau yn y Bencampwriaeth, gan gynnwys 12 *Grand Slam*, ond mae Cymru yn dilyn yn agos efo 8. Y mis hwn, beth am liwio baner Cymru? Bydd hon yn hedfan ym mhob stadiwm pan fydd Cymru'n chwarae rygbi. Mae Dydd Gŵyl Dewi bron â chyrraedd hefyd, ac rwy'n siwr bydd y faner i'w gweld yn eich ysgolion ar y diwrnod hwnnw. A ydych yn cynnal eisteddfod neu gyngerdd arbennig ar Fawrth y 1af?

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn dydd Gŵyl Ddewi – Mawrth 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

TAFARN TYNLLIDIART

Ty Bwyta a Bar

Prydau neilltuoal y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr

CROESO

(mantis i archebu o flaen llaw)

CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES

CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG

Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucaee
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau

**GWASANAETH YMWELD
Â'R CARTREF
01970 615938**

DRUID INN Goginan

Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
Lewis a Lorraine
Ffôn 880650



ISSN 0963-925X



Rhif 306 | CHWEFROR 2008